

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Dewi Sant
Tŷ Ddewi
Sir Benfro
SA62 6QH**

Rhif yr Ysgol: 6684034

Dyddiad yr Arolygiad: 26 Mawrth 2007

gan

**Brian William Medhurst
3508**

Dyddiad Cyhoeddi: 16 Mai 2007

O dan rif contract Estyn: 1202506

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2007: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir

codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Dewi Sant fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Dewi Sant rhwng 26/03/07 a 29/03/07, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Brian William Medhurst. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALIau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen
Cyd-destun	1
Crynodeb	2
Argymhellion	8
Safonau	9
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	9
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	18
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	18
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	22
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	26
Arweinyddiaeth a rheolaeth	29
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	29
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	31
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	34
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	38
Saesneg	38
Cymraeg ail-iaith	39
Gwyddoniaeth	41
Technoleg gwybodaeth	43
Hanes	44
Addysg gorfforol	46
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	49
Atodiadau	50
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	50
2 Data a dangosyddion ysgol	51
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	52
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	55
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	56

Cyd-destun

Natur y darparwr

- 1 Mae Ysgol Dewi Sant yn ysgol gyfun gymysg 11 – 18, sydd wedi'i lleoli yn ninas Tyddewi, ac sydd wedi'i chynnal gan awdurdod unedol Sir Benfro. Mae 451 o fyfyrwr ar y gofrestr, ac o'r rhain mae 78 yn y chweched-dosbarth. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na'r rhai a gofnodwyd adeg yr arolygiad blaenorol, pan roeddent yn 390 a 64 yn ôl eu trefn.
- 2 Mae myfyrwyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd economaidd. Mae un-deg-tri y cant o'r myfyrwyr wedi'u cofrestru fel rhai sydd â'r hawl i brydau-bwyd ysgol am ddim – ffigwr sy'n cyfateb i gyfartaledd yr awdurdod unedol, ac sydd ychydig yn is na'r cymedr cenedlaethol. Mae'r awdurdod unedol yn edrych ar ôl dau o'r myfyrwyr.
- 3 Mae'r ysgol yn gwasanaethu dinas hanesyddol Tyddewi ac ardal wledig eang. Yn unol â'r sefyllfa adeg yr arolygiad blaenorol, mae tua 96% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith-gyntaf gartref, ac mae 3% yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith-gyntaf. At ei gilydd fodd bynnag, mae 14% o fyfyrwyr yn siarad Cymraeg fel iaith-gyntaf neu i safon gyffelyb.
- 4 Addysgir ac arholir y Gymraeg fel iaith-gyntaf ac ail-iaith. Ni addysgir unrhyw bynciau yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Siaredir y Gymraeg yn y gymuned ac yn yr ysgol, ond Saesneg yw prif gyfrwng yr addysg.
- 5 Mae mewnlifiad yr ysgol yn cynrychioli'r ystod lawn o allu, ond oherwydd nifer fechan y myfyrwyr ym mhob grŵp oed mae amrywiaeth amlwg o flwyddyn i flwyddyn. Mae 17 o fyfyrwyr (bron 4%) yn meddu ar ddatganiadau anghenion addysgol arbennig. Mae 84 myfyriwr yn ychwaneg (tua 19%) ar gofrestr anghenion arbennig yr ysgol sydd hefyd yn derbyn cymorth-dysgu ychwanegol.
- 6 Arolygwyd yr ysgol yn flaenorol ym mis Chwefror 2001. Ers hynny, mae newidiadau wedi bod yn arweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r uwch-arweinyddiaeth bellach yn cynnwys y pennaeth, un dirprwy-bennaeth a thri is-bennaeth. Roedd y pennaeth a'r dirprwy-bennaeth mewn swydd adeg yr arolygiad blaenorol. Roedd y tri is-bennaeth, a benodwyd wedi'r arolygiad, eisoes yn rhan o'r uwch-dîm rheoli ar yr adeg hynny.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- 7 Mae'r ysgol yn datgan ei bod yn ceisio "Ymdrechu am welliant parhaus mewn ysgol sy'n ofalgar a lle bo disgyblaeth yn dda, ac sy'n annog a disgwyl pob myfyriwr i gyflawni ei lllawn botensial."
- 8 Yn ei chynllun datblygu, mae'r ysgol yn amlygu ei nodau, a gynhelir gan amcanion, targedau a meini prawf llwyddiant manwl. Y nodau hyn yw:
 - cynnal/gwella addysgu, dysgu a safonau cyflawniad yng nghyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4, ac yn y chweched-dosbarth;
 - gwella medrau sylfaenol ac allweddol ymhellach;

- gwella'r broses o hunan-arfarnu ysgol ymhellach;
- gwella amgylchedd yr ysgol; a hefyd
- rhesymoli'r cwricwlwm ymhellach er mwyn cyflawni cyllideb fantoledig.

Crynodeb

- 9 Mae Ysgol Dewi Sant yn ysgol dda iawn sy'n darparu llawer o gyfleoedd i ddysgwyr gyflawni eu llawn botensial. Mae'n cynnig yr addysg o'r radd flaenaf hon i'w myfyrwyr er gwaethaf y diffygion hirymaros yn eu hadeiladau a'u hystafelloedd.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	1
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	1
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	1
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	1
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	1

- 10 Mae'r graddau yn y tabl uchod yn cytuno â'r rhai a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu ar gyfer Cwestiynau Allweddol 1 i 6. Ar gyfer Cwestiwn Allweddol 7, dyfarnodd y tîm radd a oedd un yn uwch na'r hyn a awgrymwyd gan yr ysgol.

Safonau

Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

Maes Arolygu	Cyfnod allweddol 3	Cyfnod allweddol 4	Chweched dosbarth
Saesneg	1	2	1
Cymraeg ail-iaith	1	1	2
Gwyddoniaeth	1	2	2
Technoleg gwybodaeth	3	3	dd/g
Hanes	2	2	1
Addysg gorfforol	2	1	1

- 11 Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau y gwnaethom eu dyfarnu ar gyfer y graddau a gyflawnodd myfyrwyr, yn y gwahanol gyfnodau, yn y chwe phwnc a arolygwyd yn drwyadl:

65 o wersi	% Gradd 1	% Gradd 2	% Gradd 3	% Gradd 4	% Gradd 5
Cyfnod allweddol 3	22	69	9	0	0
Cyfnod allweddol 4	23	62	15	0	0
CA3/CA4 ar y cyd	23	65	12	0	0
Chweched-dosbarth	44	44	12	0	0
Ysgol gyfan	28	60	12	0	0
<i>Ffigurau cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd 2005/2006</i>	11	54	29	6	0

(Am eglurhad o'r graddau a wnewch chi gyfeirio at ddechrau'r adroddiad)

Cyfnodau allweddol 3 a 4

- 12 Mae'r ffigurau hyn ar gyfer cyflawniadau myfyrwyr yn rhagori'n rhagorol ar dargedau cenedlaethol. Maent hefyd yn dangos gwelliant mewn safonau ers yr arolygiad blaenorol.
- 13 Gwnaethom gymharu perfformiad myfyrwyr mewn profion cenedlaethol, trwy asesiad athrawon ac mewn arholiadau allanol gyda rhai myfyrwyr ledled Cymru a myfyrwyr mewn ysgolion cyffelyb¹. Yn hyn o beth, mae perfformiad myfyrwyr yn uwch na pherfformiad myfyrwyr ar gyfartaledd yn y grwpiau cymharu. Mae llawer o nodweddion da a rhagorol. O blith y rhain y mae:

- yng nghyfnod allweddol 3:
 - yn 2004, 2005 a 2006 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, roedd cyfran y myfyrwyr a gafodd lefel 5 neu well yn sylweddol uwch na chyfartaleddau Cymru a Sir Benfro.;
 - yn 2004, 2005 a 2006, roedd canlyniadau'r ysgol mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn well na'r rhai hynny a gyflawnwyd mewn tri-chwarter yr ysgolion cyffelyb; a hefyd
 - yn 2004 a 2006, roedd canlyniadau'r ysgol mewn mathemateg yn well na'r rhai hynny a gyflawnwyd mewn tri-chwarter yr ysgolion cyffelyb, ac yn 2005, yn well na hanner yr ysgolion hyn.
- ac yng nghyfnod allweddol 4:
 - dros y tair blynedd diwethaf, roedd cyfran y myfyrwyr a gyflawnodd 5 gradd TGAU A* i C neu fwy, a 5 gradd A* i G neu fwy yn sylweddol uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol; a hefyd

¹ Mae ysgolion cyffelyb yn cyfeirio at ysgolion eraill yng Nghymru sydd â chyfran tebyg o fyfyrwyr sydd â'r hawl i brydau-bwyd ysgol am ddim. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gosod Ysgol Dewi Sant yn y grŵp sydd â rhwng 10% a 15% o fyfyrwyr â'r hawl i brydau-bwyd ysgol am ddim.

- dros y tair blynedd diwethaf, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd 5 gradd TGAU A* i C neu fwy yn uwch na'r gyfran a wnaeth hyn mewn tri-chwarter yr ysgolion cyffelyb;
- 14 Yn gyffredinol, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn, ond at ei gilydd mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiadau TGAU bechgyn a merched yn llai amlwg nag y mae ar lefel genedlaethol. Mae'r gwahaniaeth mwyaf yn digwydd mewn Saesneg.
 - 15 Mae myfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud yn arbennig o dda yn yr ysgol, ac yn ogystal, myfyrwyr o gyrhaeddiad-uwch.
 - 16 Mae myfyrwyr yn cyfathrebu yn dda iawn mewn Saesneg, ac mae eu hyfedredd dwyieithog yn rhagorol. Hefyd, mae gan ran fwyaf y myfyrwyr fedrau rhif da, ac maent yn eu defnyddio'n dda mewn llawer o bynciau eraill. Mae myfyrwyr yn caffael medrau cyfrifiaduro da wrth gyfathrebu gwybodaeth, ond nid yw eu medrau trafod a modelu gwybodaeth wedi'u datblygu mor dda.
 - 17 Gydag ond ychydig iawn o eithriadau, mae myfyrwyr yn gwneud cynnydd rhagorol yn natblygiad medrau-allweddol ehangach megis datrys-problemau, arloesi, creadigrwydd a gweithio gydag eraill.
 - 18 Mae myfyrwyr yn arddangos agweddau cadarnhaol rhagorol tuag at ddysgu. Mae'r mwyafrif llethol ohonynt wedi'u cymell yn dda, ac maent yn cynnal eu canolbwyntio gydol y diwrnod ysgol.
 - 19 Mae ymddygiad da disgyblion yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol yn nodwedd ragorol yn Ysgol Dewi Sant.
 - 20 Mae presenoldeb ysgol yn rhagori'n gyson ar gyfartaleddau cenedlaethol ac awdurdod unedol, ac i raddau cyffelyb ar y rhai hynny a gyflawnir mewn ysgolion cyffelyb.

Y chweched-dosbarth

- 21 Mae perfformiad yr ysgol yn lefel-A yn dda gyda nodweddion rhagorol.
- 22 Dros y tair blynedd diwethaf, mae llwyddiant yn lefel-A wedi'i fynegi fel cyfran y myfyrwyr a gyflawnodd 2 radd A i C neu fwy wedi rhagori'n sylweddol ar gyfartaleddau lleol a chenedlaethol.
- 23 Parthed myfyrwyr sy'n cyflawni 2 radd A i E neu fwy, cyflawnodd yr ysgol raddfa lwyddiant ragorol o 100% ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf.
- 24 Adlewyrchir ansawdd y canlyniadau yn sgôr pwyntiau cyartalog y myfyriwr a gyrhaeddodd lefel eithriadol, sef 27 yn 2006, o'i chymharu â'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol o 20.
- 25 Cyflawniad nodedig y tu hwnt yw llwyddiant lefel-A yn 2006, pan, allan o grŵp o 15 myfyriwr hanes, gyflawnodd 14 radd A ac un, radd B. Yn ogystal, enillodd dau fyfyriwr wobrau am y marciau arholiad gorau a gyflawnwyd gan fachgen a merch.

- 26 Mae myfyrwyr yn gwrando'n barchus bob amser, ac wrth siarad, maent yn aml yn huawdl, ac mae eu defnydd o eirfa pwnc-benodol yn ganmoladwy. Mae eu medrau darllen yn dda gyda nodweddion rhagorol, ac mae eu hysgrifennu hefyd yn dda iawn ac wedi'i drefnu'n dda.
- 27 Mae gan fedrau-rhifiadol disgyblion nodweddion da a dim diffygion pwysig, ac maent yn gwneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi eu hastudiaethau.
- 28 Gydag ond ychydig iawn o eithriadau, mae myfyrwyr yn gallu gweithio'n annibynnol, ac maent yn cymryd y camau angenrheidiol i symud eu cynnydd eu hunain ymlaen. Pan fo angen iddynt wneud, maent yn cydweithio'n effeithiol iawn â'i gilydd.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

- 29 Mae'r tabl isod yn dangos y graddau y gwnaethom eu dyfarnu ar gyfer ansawdd addysgu ac asesu yn yr holl wersi yr arsylwyd arnynt yn ystod yr arolygiad:

88 o wersi	% Gradd 1	% Gradd 2	% Gradd 3	% Gradd 4	% Gradd 5
Cyfnod allweddol 3	35	53	12	0	0
Cyfnod allweddol 4	24	61	15	0	0
CA3/CA4 ar y cyd	30	57	13	0	0
Chweched dosbarth	38	57	5	0	0
Ysgol gyfan	32	57	11	0	0
<i>Ffigurau cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd 2005/2006</i>	17	52	26	5	0

(Am eglurhad o'r graddau a wneuch chi gyfeirio at ddechrau'r adroddiad)

Cyfnodau allweddol 3 a 4

- 30 Mae'r ffigurau yn y tabl yn adlewyrchu ansawdd uchel yr addysgu sy'n gyffredin yn yr ysgol. Maent hefyd yn nodi gwelliant ar y ffigurau a gyflawnwyd adeg yr arolygiad blaenorol. Mae cyfran y gwersi y dyfarnwyd gradd 1 neu radd 2 iddynt lawer yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2005/2006, gyda gradd 1 yn cael ei ddyfarnu i bron draean o'r addysgu a welwyd.
- 31 Cynigiodd myfyrwyr sylwadau cadarnhaol iawn am ansawdd uchel yr addysgu a'r gofal y maent yn ei dderbyn ar draws a thu hwnt i'r cwricwlwm.
- 32 Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel, ac maent yn darparu llawer o gyfleoedd i'w myfyrwyr wireddu eu llawn botensial. Mae'r berthynas wych sy'n bodoli rhwng athrawon a myfyrwyr yn caniatáu i ddysgu ddigwydd mewn amgylcheddau ymlaciedig ond heriol.
- 33 Mae gweithdrefnau ar gyfer asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau ar gyflawniadau myfyrwyr nodweddion da a dim diffygion pwysig. Mae dealltwriaeth myfyrwyr o'r gyfundrefn asesu yn rhagorol.

- 34 Mae'r cwricwlwm yn diwallu anghenion dysgu myfyrwyr, ac mae'n adlewyrchu'r nodau a osodir allan ar gyfer myfyrwyr oed-ysgol statudol yn Neddf Addysg 1996, ac mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr gael cymwysterau priodol. Mae'n darparu cyfle a mynediad cyfartal i'r holl fyfyrwyr.
- 35 Mae ystod ragorol o weithgareddau allgyrsiol sy'n ehangu profiadau myfyrwyr, ac sy'n hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol.
- 36 Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol myfyrwyr yn dda gyda nodweddion rhagorol.
- 37 Cyfoethogir profiadau dysgu myfyrwyr yn sylweddol trwy bartneriaeth yr ysgol gyda rhieni, y gymuned ac eraill sy'n darparu addysg.
- 38 Mae llawer o nodweddion rhagorol yn y gofal, cyfarwyddyd a chefnogaeth y mae dysgwyr yn eu derbyn.
- 39 Mae gan ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol nifer o nodweddion rhagorol, gan gynnwys cysylltiadau canmoladwy gydag ysgolion cynradd partner a'r cymorth academiaidd a bugeiliol eithriadol a ddarperir ar gyfer myfyrwyr yng nghanolfan cymorth-dysgu ychwanegol yr ysgol.
- 40 Mae'r ysgol yn dda wrth sicrhau fod myfyrwyr ag anabledau yn aelodau llawn a chyfartal o'r ysgol. Maent yn gallu cael mynediad i bob rhan o'r ysgol.

Y chweched-dosbarth

- 41 Mae ansawdd yr addysgu ar ei orau yn y chweched-dosbarth, gyda gradd 1 yn cael ei ddyfarnu i bron bedwar-deg y cant o'r hyn a welwyd. Gellir gweld ei effaith gadarnhaol ar ddysgu yn y safonau uchel y mae myfyrwyr wedi, ac y maent yn eu cyflawni.
- 42 Gwnaeth myfyrwyr sylwadau cadarnhaol iawn am ansawdd uchel yr addysgu, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth y maent yn eu cael yn y chweched-dosbarth.
- 43 Mae athrawon yn rhoi ymwneud rheolaidd i fyfyrwyr mewn tasgau ymchwil estynedig a heriol iawn i'w helpu ddod yn ddysgwyr mwy annibynnol a'u paratoi'n dda ar gyfer dysgu y tu hwnt i ysgol.
- 44 Monitrir cynnydd myfyrwyr yn effeithiol. Mae athrawon hefyd yn sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod ac yn deall gofynion y byrddau arholi a'r meini prawf ar gyfer llwyddiant.
- 45 Mae myfyrwyr yn elwa o gwricwlwm da. Mae cynnig ystod eang o gyrsiau ar lefel UA a lefel-A, sy'n darparu'n dda ar gyfer holl anghenion myfyrwyr, ac sy'n denu nifer fawr o fyfyrwyr yn ôl i'r chweched-dosbarth.
- 46 Mae'r bartneriaeth gyda Gyrfa Cymru yn effeithiol, a darperir yn dda ar gyfer myfyrwyr oddi mewn i raglen addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd dda.
- 47 Er mwyn dangos eu hymrwymiad i'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion B12 yn gweithredu fel swyddogion amser-cinio, yn cynorthwyo myfyrwyr ieuengach â'u

darllen, a threfnu nifer o ddigwyddiadau er mwyn cefnogi elusennau ac achosion da eraill.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 48 Arweinir a rheolir yr ysgol yn effeithiol ac effeithlon iawn. Mae gweledigaeth a rennir o sut y mae'r ysgol i wireddu eu datganiad cenhadaeth a bodlonrwydd gan bawb i weithio'n galed er mwyn gwireddu hyn.
- 49 Mae'r pennaeth a'r dirprwy yn arweinwyr a rheolwyr neilltuol o lwyddiannus. Ynghyd ag aelodau eraill y grŵp arweinyddiaeth, maent yn darparu cyfeiriad strategol da iawn i'r ysgol.
- 50 Mae arweinwyr a rheolwyr yr ysgol, ar bob lefel, wedi bod yn neilltuol o lwyddiannus wrth ddarparu cyfeiriad eglur i'r ysgol. Mae penaethiaid cyfadranau a phenaethiaid ysgol yn arwain a rheoli eu staff yn dda iawn oddi mewn i'w meysydd darpariaeth pwnc-benodol a/neu fugeiliol.
- 51 Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol da iawn ar gyfer gwerthuso a gwella ei darpariaeth. Defnyddir gosod-targedau yn effeithiol i gynnal safonau uchel, neu godi safonau ymhellach.
- 52 Mae'r ysgol yn cymryd ystyriaeth briodol o flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwelliant, ac mae'n eu cynnwys yn ei chynlluniau datblygu.
- 53 Mae'r llywodraethwyr yn deall eu hysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda iawn. Maent yn chwarae rôl ganolog yn ei rheolaeth.
- 54 Mae gan staffio'r ysgol nodweddion da a dim diffygion pwysig. Mae nifer ddigonol o aelodau staff i'r ysgol weithredu'n effeithlon.
- 55 Mae ansawdd a maint yr adnoddau dysgu yn dda at ei gilydd, ond mae ychydig o ddiffygion.
- 56 Mae gan yr adeiladau a'r ystafelloedd nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion, ond braidd yn ddigonol ydynt ar gyfer nifer y myfyrwyr sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd. Yn y cyfleusterau dan-do gwael ar gyfer addysg gorfforol y mae'r diffyg mawr yn yr adeiladau a'r ystafelloedd.
- 57 Er gwaethaf y problemau sy'n gysylltiedig â'r adeiladau a'r ystafelloedd, mae'r ysgol yn cyflawni rhai safonau rhagorol mewn llawer o agweddau o'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae rheolaeth yr ysgol o adnoddau er mwyn cyflawni gwerth-am-arian yn rhagorol.

Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

- 58 At ei gilydd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ddelio â materion allweddol yr arolygiad blaenorol. Parthed y cynnydd a wnaed mewn safonau cyflawniad, yn enwedig yn lefel-A, mae'r ysgol wedi gwneud yn rhagorol o dda. Mae medrau-allweddol wedi gwella'n sylweddol, yn enwedig o ran llythrennedd a dwyieithrwydd myfyrwyr, ond mae lle i wella mewn agweddau o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Ar lefel ysgol ac adran, mae cynllunio hirdymor wedi'i sefydlu'n dda

bellach. Bellach, diwellir gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol a gweithrediadau o addoli ar y cyd.

- 59 Fodd bynnag, erys lle i weithio gyda'r awdurdod unedol i wella'r adeiladau a'r ystafelloedd, yn enwedig o ran y cyfleusterau dan-do ar gyfer addysg gorfforol. Mae'r rhain felly yn dal yn achos pryder.

Argymhellion

- A1 Parhau i ddod o hyd i ddulliau o godi safonau yn yr holl bynciau a medrau-allweddol, gyda phwyslais neilltuol ar fedrau disgyblion yn yr agweddau hynny o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu nad ydynt wedi'u datblygu'n llawn ar hyn o bryd.
- A2 Gweithio gyda'r awdurdod unedol i ddod o hyd i ddulliau o wella adeiladau ac ystafelloedd yr ysgol at-ei-gilydd ac yn enwedig ar gyfer addysg gorfforol.

Mae'r argymhellion uchod wedi'u cydnabod gan yr ysgol fel meysydd i'w datblygu.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 60 Mae'r radd y gwnaethom ddyfarnu yn cytuno â'r radd a gynigwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

Cyfnodau allweddol 3 a 4

- 61 Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau y gwnaethom eu dyfarnu ar gyfer y graddau a gyflawnodd myfyrwyr, yn y gwahanol gyfnodau, yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn y chwe phwnc a arolygwyd yn drwyadl:

49 o wersi	% Gradd 1	% Gradd 2	% Gradd 3	% Gradd 4	% Gradd 5
Cyfnod allweddol 3	22	69	9	0	0
<i>CA3 cenedlaethol 05/06</i>	11	52	31	6	0
Cyfnod allweddol 4	23	62	15	0	0
<i>CA4 cenedlaethol 05/06</i>	9	51	33	7	0
CA3/CA4 ar y cyd	23	65	12	0	0

(Am eglurhad o'r graddau a wnewch chi gyfeirio at ddechrau'r adroddiad)

- 62 Y targedau cenedlaethol ar gyfer safonau mewn ysgolion yw, erbyn eleni, y dylai gwersi fod yn radd 3 neu well mewn o leiaf 98% o achosion, a gradd 2 neu well mewn o leiaf 65%. At ei gilydd, yn y chwe phwnc y gwnaethom eu harolygu, rhagorodd safonau cyflawniad myfyrwyr yn rhagorol ar y targedau.
- 63 Hefyd, fel y mae'r tabl yn dangos, cyflawnodd yr ysgol lawer iawn yn well nag y gwnaeth ysgolion yn genedlaethol yn ystod y flwyddyn academaidd 2005/2006.

Llwyddiant disgyblion wrth gyrraedd nodau dysgu cytunedig

- 64 Gwnaethom arfarnu perfformiad myfyrwyr mewn arholiadau cyhoeddus ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, ac mewn profion a thrwy asesiad athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 trwy gymharu eu cyrhaeddiad â'r canlynol:
- cyrhaeddiad yr holl fyfyrwyr yng Nghymru;
 - cyrhaeddiad myfyrwyr yn Sir Benfro; a hefyd
 - cyrhaeddiad myfyrwyr mewn ysgolion cyffelyb ledled Cymru.
- 65 Rhaid nodi bod profion cenedlaethol dewisol ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn 2006. Ni ddefnyddiodd pob ysgol nhw. Mesurwyd cyrhaeddiadau myfyrwyr trwy asesiadau athrawon.

- 66 Wrth ddewis ysgolion cyffelyb yng Nghymru, gwnaethom ddefnyddio'r grŵp ysgolion lle bo gan rhwng 10% a 15% o fyfyrwyr hawl i brydau-bwyd ysgol am ddim (a elwir y grŵp PBDd).
- 67 Gwnaethom ystyried cyrhaeddiad myfyrwyr yn 2006 a blynyddoedd blaenorol.
- 68 Canfuom yng nghyfnod allweddol 3 dros y 3 blynedd diwethaf, fod canlyniadau yn rhagorol oherwydd:
- mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, roedd cyfran y myfyrwyr a gafodd lefel 5 neu well yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru a ffigwr Sir Benfro;
 - bod cyfran y myfyrwyr a gyflawnodd ydangosydd pwnc-craidd² yn sylweddol uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol;
 - perfformiodd bechgyn a merched gystal â'i gilydd yn yr holl bynciau craidd; a hefyd;
 - yr oedd cyfran y myfyrwyr a gyflawnodd lefel 5 neu'n well mewn Cymraeg (ail-iaith) yn sylweddol uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol; a hefyd
 - yn holl bynciau eraill y cwricwlwm, roedd asesiadau athrawon o gyrhaeddiad myfyrwyr yn sylweddol uwch na'r rhai hynny a gyflawnwyd yn genedlaethol a lleol.
- 69 Pan gymharir perfformiadau cyfnod allweddol 3 myfyrwyr wrth gyflawni lefel 5 neu well dros y tair blynedd diwethaf, gyda'r perfformiadau a gyflawnwyd mewn ysgolion eraill yn y grŵp PBDd, gwnaethom ganfod:
- mewn Saesneg a gwyddoniaeth, y gwnaeth myfyrwyr yn Ysgol Dewi Sant yn well na myfyrwyr mewn tri-chwarter yr ysgolion eraill yn y grŵp ym mhob blwyddyn;
 - mewn mathemateg, y gwnaeth myfyrwyr yn well na'r rhai hynny mewn tri-chwarter yr ysgolion eraill yn 2004 a 2006, ac yn well na hanner ohonynt yn 2005;
 - yn y dangosydd pwnc-craidd, gwnaeth yr ysgol yn well na thri-chwarter ysgolion cyffelyb; a hefyd
 - yn rhan fwyaf pynciau eraill y cwricwlwm, gwnaeth yr ysgol yn well na thri-chwarter yr ysgolion eraill.
- 70 Pan gymerir llwyddiant cyfnod allweddol 3 yr ysgol gyda'r hyn a gyflawnwyd mewn naill ysgolion Saesneg eu hiaith neu'r holl ysgolion yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion yn rhan fwyaf yr achosion.
- 71 Yng nghyfnod allweddol 4, dros y tair blynedd diwethaf, fel yng nghyfnod allweddol 3, gwnaeth myfyrwyr yn eithriadol o dda yn arholiadau TGAU. Er enghraifft:
- roedd cyfrannau'r myfyrwyr a gyflawnodd 5 neu fwy o raddau A* i C, 5 neu fwy o raddau A* i G a'r dangosydd pwnc-craidd yn well na ffigurau cenedlaethol a lleol;
 - roedd sgôr pwyntiau TGAU myfyrwyr ar gyfartaledd yn sylweddol uwch na'r ffigwr lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol; a hefyd
 - roedd llwyddiant wrth gyflawni 1 neu fwy o raddau A* i G yn well na'r hyn a gyflawnwyd yn Sir Benfro a Chymru gyfan.

² Ydangosydd pwnc-craidd yn CA3 yw canran y myfyrwyr sy'n cael lefel 5 neu well yn y pynciau craidd, sef, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn CA4, canran y myfyrwyr sy'n cael gradd C o leiaf ym mhob un o'r tri phwnc hyn yn arholiadau TGAU

- 72 Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill yn y grŵp PBDd, cyflawnodd yr ysgol yn dda iawn dros y tair blynedd diwethaf. Er enghraifft, o ran:
- cyfran y myfyrwyr a gyflawnodd 5 TGAU gradd A* i C neu fwy, a'r pwyntiau TGAU a sgoriwyd ar gyfartaledd, perfformiodd Ysgol Dewi Sant yn well na thri-chwarter yr ysgolion eraill;
 - cyfran y myfyrwyr a gyflawnodd 5 gradd TGAU A* i G neu fwy, perfformiodd yr ysgol yn well na thri-chwarter y lleill yn 2004, ac yn well na hanner ohonynt yn 2005 a 2006; a hefyd
 - ydangosydd pwnc-craidd, perfformiodd yr ysgol yn well na thri-chwarter y lleill yn 2005 a 2006, ac yn well na hanner ohonynt yn 2004.
- 73 Fel yng nghyfnod allweddol 3, pan gymharir llwyddiant cyfnod allweddol 4 yr ysgol gyda'r hyn a gyflawnwyd mewn ysgolion Saesneg eu hiaith neu'r holl ysgolion yng Nghymru, mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn llawer o achosion.
- 74 At ei gilydd, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad TGAU bechgyn a merched yn llai na'r amrywiad cenedlaethol. Yn 2006, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol ym mherfformiad bechgyn o'i gymharu â pherfformiad merched yn ydangosydd pwnc-craidd.
- 75 Gellir dod o hyd i ffigurau go iawn TGAU 2006 a chymariaethau gyda data Sir Benfro a Chymru-gyfan yn Atodiad 3 ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
- 76 Mae dadansoddiad o ystod o ddata yn dangos fod myfyrwyr 2006 wedi cyflawni ar gyfartaledd hanner gradd yn uwch yn eu pynciau TGAU na myfyrwyr o allu cyffelyb mewn ysgolion eraill. Mae hefyd yn cadarnhau fod gwelliannau parhaus wedi bod mewn deilliannau dros y 3 blynedd diwethaf. Mae cyrhaeddiad myfyrwyr bellach yn dda iawn gyda nodweddion rhagorol.
- 77 Rhagorwyd ar bron bob un o dargedau perfformiad yr ysgol yn TGAU dros y 3 blynedd diwethaf.
- 78 Mae proses gosod targedau trylwyr iawn hefyd yn bodoli ar gyfer pob pwnc unigol yng nghyfnod allweddol 4. Cyfarfuwyd neu rhagorwyd ar y rhain mewn 12 allan o'r 17 pwnc yng nghategoriau graddau A* i C ac A* i G.
- 79 Fel y dylai fod, mae'r ysgol yn ymfalchïo yn y fath lwyddiant yn yr arholiadau allanol hyn, ond nid yw'n hunanfodlon, fel y mae ei datganiad cenhadol yn dangos.
- 80 Oherwydd y ddarpariaeth dda iawn a wneir ar eu cyfer, mae myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn cyflawni'n dda iawn ar y cyfan ar draws y cwricwlwm.
- 81 Mae'r ysgol yn sefydliad cwbl gynhwysol, ac mae'n darparu mynediad agored i holl agweddau dysgu, beth bynnag fo cefndiroedd, anabledau a/neu gyrhaeddiad blaenorol dysgwyr.
- 82 Mae'r ysgol wedi cael y Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol ers 1998. Mae'r cydlynnydd wedi datblygu ymwybyddiaeth eglur o'r medrau hyn yn yr holl feysydd ar draws y

cwricwlwm. Canfyddir myfyrwyr y mae angen gwella eu medrau sylfaenol, ac maent yn derbyn cymorth ychwanegol. Mae graddfa'r cyflawniad gwell gyda'r myfyrwyr hyn wedi bod yn amlwg iawn.

- 83 Mae myfyrwyr yn gwrando â pharch mawr a sylw ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Maent yn ymateb yn fodlon i gwestiynau yn y dosbarth, ac maent yn cyfrannu'n fodlon i drafodaethau dosbarth, ac yn aml rhoi ymatebion sy'n rhagorol o huawdl ac estynedig yn aml. Mae myfyrwyr yn cydweithio'n dda mewn parau ac mewn grwpiau bach. Mae esiampl o gydweithio rhagorol ar draws yr holl ystod allu mewn llawer o bynciau. Mae myfyrwyr yn defnyddio Saesneg Safonol pan fo'r angen, gan ddangos eu bod yn gallu addasu eu hiaith pan fo amgylchiadau yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt wneud. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o eirfa bwnc ar draws y cwricwlwm.
- 84 Mae myfyrwyr yn ddarllenwyr rhugl a chywir, ac mae myfyrwyr o gyflawniad uwch yn darllen defnydd anghyfarwydd gyda mynegiant. Rhoddir cymorth da i fyfyrwyr ag anawsterau darllen, ac maent yn gwneud cynnydd da iawn. Mae rhan fwyaf y myfyrwyr yn darllen ystod eang o destunau heriol gyda dealltwriaeth dda. Mae'r myfyrwyr i gyd yn darllen am bleser. Mae gan fyfyrwyr fedrau hyfedrus ar gyfer ymchwil, gan gynnwys sgimio a sganio testunau, a sgrinio am wybodaeth.
- 85 Mae medrau-ysgrifennu myfyrwyr yn dda Maent yn gallu ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau ac at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae'r rhan fwyaf yn ymestyn eu hysgrifennu, ac mae eu trefniant yn dda. Mewn llawer o bynciau, mae myfyrwyr yn cynllunio, drafftio a phrawf-ddarllen eu gwaith er mwyn gwella. Mae llawer yn defnyddio cyfrifiaduron yn effeithiol er mwyn cynorthwyo'r broses ddrafftio. Mae medrau mewn sillafu, atalnodi, gramadeg a chyflwyniad yn gyffredinol dda.
- 86 At ei gilydd, mae gan fedrau rhifiadol myfyrwyr yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 fel ei gilydd nodweddion da a dim diffygion pwysig. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae tystiolaeth o safonau da a da iawn, yn enwedig gyda chyrrhaeddwyu-uwch. Canfyddir myfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig, ac maent yn derbyn cymorth da a hyfforddiant ychwanegol. Mae lleiafrif bach o fyfyrwyr yn ddiffygiol eu hyder yn eu galluoedd rhifiadol.
- 87 Mae safon hyfedredd dwyieithog myfyrwyr yn rhagorol. O ganlyniad i'r gweithio agos gydag ysgolion cynradd partner, mae uwch-ddysgwyr yn dilyn cwrs iaith-gyntaf wrth iddynt ddod i mewn i B7. Mae'r holl fyfyrwyr ail-iaith yn dilyn cwrs TGAU llawn yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r canlyniadau yn rhagorol. Oherwydd y llwyddiant hwn, mae'r nifer sy'n astudio'r Gymraeg yn y chweched-dosbarth wedi cynyddu'n ddramatig.
- 88 Yng nghyfnod allweddol 3, mae myfyrwyr yn caffael medrau da wrth gyfleu gwybodaeth, ac maent yn gwneud defnydd da ohonynt ym mron pob un o'r pynciau. Nid yw'r modd y mae myfyrwyr yn trafod a modelu medrau gwybodaeth wedi'i ddatblygu na'i gymhwyso mor dda. Yn y pynciau a arolygwyd, mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda a dim diffygion pwysig mewn Saesneg, gwyddoniaeth, hanes ac addysg gorfforol. Yn y Gymraeg, mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion. Mae mynediad da i gyfrifiaduron ar bob adeg o'r dydd. Defnyddir technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n dda i fwyhau'r safonau a gyflawnir gan fyfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig.

- 89 Gydag ond ychydig o eithriadau, mae myfyrwyr yn gwneud cynnydd rhagorol wrth ddatblygu eu medrau-allweddol ehangach.
- 90 Mae datrys-problemau yn integrol i'r gwaith mewn llawer o bynciau ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae medrau dadansoddi a gwneud-penderfyniadau disgyblion wedi'u datblygu'n dda.
- 91 Mae myfyrwyr yn aml yn arloesol a chreadigol yn y modd y maent yn cynhyrchu a chyflwyno eu syniadau a'u deiliannau. Mae enghreifftiauau neilltuol o dda yn amlwg yng ngwaith celf, dylunio a thechnoleg, hanes a'r Gymraeg.
- 92 Mae'r gallu i weithio gydag eraill yn rhagorol. Yn yr holl feysydd pwnc, mae myfyrwyr yn cydweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau. Yma, maent yn arddangos parch sylweddol, ystyriaeth o, a chefnogaeth i'w gilydd.
- 93 At ei gilydd, mae myfyrwyr yn cymryd diddordeb sylweddol a balchder yn eu gwaith, ac maent yn weithredol wrth geisio gwella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain.

Cynnydd myfyrwyr mewn dysgu

- 94 Mae dadansoddiad o ddata a darparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn datgelu yr oedd gwerth-ychwanegol sylweddol ar gyfer Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'rdangosydd pwnc-craidd, pan gyfatebwyd canlyniadau cyfnod allweddol 3 yr ysgol yn 2005 a 2006 i gyrhaeddiad blaenorol myfyrwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mewn geiriau eraill, roedd myfyrwyr yn Ysgol Dewi Sant wedi gwneud cynnydd rhagorol rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.
- 95 Mae dadansoddiadau hefyd yn datgelu y dangoswyd gwerth-ychwanegol sylweddol yn y categori 5 gradd TGAU A* i C, sgôr pwyntiau TGAU ar gyfartaledd a'rdangosydd pwnc-craidd, pan gyfatebwyd canlyniadau TGAU yn 2005 a 2006 o gyrhaeddiad blaenorol myfyrwyr yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Fel yr uchod, roedd myfyrwyr wedi gwneud cynnydd rhagorol rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3 a chyfnod allweddol 4.
- 96 Mae gan yr ysgol gysylltiadau da iawn gydag ysgolion cynradd oddi mewn i'w theulu o ysgolion, ac mae'r rhain yn sicrhau bod dilyniant mewn dysgu ar draws cyfnodau yn dda, ac yn caniatáu i fyfyrwyr wneud cynnydd o'r amser y maent yn dod i mewn i'r ysgol.
- 97 Yn gyffredinol, mae myfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da iawn. Maent yn elwa'n dda o'u hintegreiddio i mewn i ddsbarthiadau prif-ffrwd gyda chymorth priodol a threfniadau priodol eraill sydd wedi'u gwneud ar eu cyfer.
- 98 Ym mhob pwnc, mae myfyrwyr yn gweithio'n gynhyrchiol, yn aml yn mwynhau eu gwaith eu hunain a gwerthfawrogi'r cynnydd y maent yn ei wneud.
- 99 Mae rhan fwyaf y myfyrwyr o gyrhaeddiad uchel yn gwneud yn dda, fel y gellir gweld yn y gyfran uchel o fyfyrwyr sy'n cyflawni graddau A* ac A yn arholiadau TGAU.
- 100 Mae gan fyfyrwyr syniad da o ba mor dda y maent yn ei wneud a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Ar y cyfan, maent yn ymateb yn dda iawn i sylwadau ac arferion athrawon, ac maent yn gwneud o leiaf gynnydd da.

Datblygiad medrau personol, cymdeithasol a dysgu myfyrwyr

- 101 Mae myfyrwyr yn arddangos agweddau rhagorol o gadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r mwyafrif llethol ohonynt wedi'u symbylu'n dda, ac maent yn cynnal eu canolbwyntio gydol y diwrnod-ysgol. Mae myfyrwyr yn gallu gweithio'n annibynnol, ac maent hefyd yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn.
- 102 Mae ymddygiad da myfyrwyr yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol yn nodwedd ragorol yn Ysgol Dewi Sant. Ar wahân i'r achlysuron prin hynny pan fo un neu ddau fyfyrwr yn colli ffocws mewn gwersi, maent i gyd yn glynu wrth y côd ymddygiad canmoladwy ac a ddëllir yn dda. Mae cyfeillgarwch, cwrteisi ac ystyriaeth o eraill yn nodweddion amlwg iawn o'r dulliau gweithio yn yr ysgol.
- 103 Mae gan fyfyrwyr yng nghyfnod allweddol 3 gofnodion presenoldeb da. Mae ychydig bach o gynnydd mewn absenoliaeth yng nghyfnod allweddol 4, ond at ei gilydd, mae presenoldeb yr ysgol yn rhagori'n gyson a sylweddol ar gyfartaleddau cenedlaethol a chyfartaleddau'r awdurdod unedol, a'r rhai a gyflawnir gan ysgolion cyffelyb. Yn y flwyddyn-ysgol ddiwethaf, a hyd yn hyn yn y flwyddyn gyfredol, mae graddfeydd presenoldeb yn cwrdd â neu'n rhagori ar darged 2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru o 92%. Mae absenoldeb am resymau meddygol yn bennaf, ond mae gwyliau a gymerir yn ystod amser tymor yn gwneud cyfraniad amlwg ar rai adegau o'r flwyddyn.
- 104 Mae myfyrwyr yn brydlon iawn i'r ysgol ac i wersi gydol y dydd.
- 105 Mae myfyrwyr yn arddangos agwedd ofalgar tuag at bobl eraill yn y gymuned leol a thu hwnt. Maent yn parchu barn a chred eraill a phobl sy'n wahanol iddyn nhw eu hunain. At ei gilydd, mae lefel ymwybyddiaeth gymdeithasol, ddiwylliannol a moesol myfyrwyr yn rhagorol.
- 106 Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd rhyngweithio a dysgu er mwyn i fyfyrwyr ddatblygu'n unigolion cwbl ddatblygedig. Maent yn caffael dealltwriaeth dda a chytbwys iawn o fyd gwaith a'r cymunedau y maent yn dod yn rhan ohonynt, ac maent wedi'u paratoi'n dda i gyfrannu'n gadarnhaol i'r rhain.

Y chweched-dosbarth

- 107 Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau a ddyfarnwyd am y safonau y cyflawnodd myfyrwyr chweched-dosbarth yn y chwe phwnc a arolygwyd yn drylwyr:

16 o wersi	% Gradd 1	% Gradd 2	% Gradd 3	% Gradd 4	% Gradd 5
Chweched dosbarth	44	44	12	0	0
<i>Cenedlaethol 05/06</i>	16	68	16	0	0

(Am eglurhad o'r graddau a wnewch chi gyfeirio at ddechrau'r adroddiad)

Llwyddiant myfyrwyr wrth gyrraedd nodau dysgu cytunedig

- 108 Fel y mae'r tabl yn ei ddangos, yn y chwe phwnc a arolygwyd yn drylwyr, mae myfyrwyr yn cyflawni'n dda iawn yn y chweched-dosbarth, yn aml yn rhagorol.

- 109 Adlewyrchir y fath gyflawniad yn ansawdd canlyniadau lefel-A yr ysgol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfran y myfyrwyr sy'n cyflawni 2 lefel-A neu fwy ar raddau A i C wedi bod yn sylweddol uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, yn 2006, cyflawnodd yr ysgol ffigwr o 84%, yr awdurdod unedol, 69% a Chymru, 68%.
- 110 Yn yr un modd, o ran llwyddiant mewn 2 neu fwy o raddau A i E, gwnaeth yr ysgol yn dda iawn wrth gyflawni graddfa llwyddiant o 100% dros y tair blynedd diwethaf, ar gyfer myfyrwyr a safodd 2 lefel-A neu fwy. Roedd y ffigwr lleol a chenedlaethol cyfatebol tua 94%.
- 111 Adlewyrchir safon uchel y canlyniadau a gyflawnwyd yn y sgôr pwyntiau cyfartalog y myfyriwr, ar gyfer y rhai hynny a safodd 2 lefel-A neu fwy. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r sgôr lleol a chenedlaethol wedi bod yn 20 yn bennaf. Sgôr yr ysgol yn 2004 oedd 23, 24 yn 2005, a 27 rhagorol yn 2006.
- 112 Darparwyd nodwedd fwyaf rhagorol llwyddiant yn lefel-A gan y canlyniadau a gyflawnwyd mewn hanes yn 2006. Cyflawnodd un-deg-pedwar o'r ymgeiswyr radd A, a'r ymgeisydd arall, gradd B. Enillodd dau ymgeisydd Wobr Hanes Wynford Davies, a roddir gan Gydbwyllgor Addysg Cymru am y marciau uchaf a gyflawnwyd gan ymgeisydd gwrywaidd a benywaidd yn arholiadau hanes lefel-A.
- 113 Yn 2006, perfformiodd bechgyn yn well na merched o ran graddau uwch lefel-A a'r pwyntiau a sgoriwyd ar gyfartaledd, tra'r gwrthwyneb oedd y sefyllfa'n genedlaethol.
- 114 Mae myfyrwyr bob amser yn gwrandao'n barchus ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Maent yn gosod safbwyntiau gerbron yn hyderus y tu hwnt. Mae rhan fwyaf ymatebion myfyrwyr yn estynedig a huawdl. Mae eu defnydd a'u dealltwriaeth o eirfa pwnc-benodol yn ganmoladwy. Yn y rhan fwyaf o bynciau, mae safonau trafod yn dda iawn. Mae cydweithio yn nodwedd ragorol o waith myfyrwyr ar draws y cwricwlwm.
- 115 Mae medrau darllen yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae myfyrwyr yn ymateb â dealltwriaeth eithriadol i ystod o destunau heriol ar draws y cwricwlwm. Mae eu medrau dadansoddiad critigol wedi'u datblygu'n hynod o dda.
- 116 Bron yn ddieithriad, mae ysgrifennu myfyrwyr wedi'i drefnu a'i fynegi'n dda. Mae datblygiad syniadau a dadleuon yn aml yn rhagorol. Maent i gyd yn addasu iaith, arddull a fformat yn briodol.
- 117 Mae gan fedrau rhifiadol myfyrwyr nodweddion da a dim diffygion pwysig. Maent yn gallu defnyddio a chymhwyso'r medrau hyn mewn nifer o sefyllfaoedd mewn amrywiol feysydd pwnc ar draws y cwricwlwm.
- 118 Mae myfyrwyr yn gwneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gynorthwyo eu hastudiaethau. Mae gan fyfyrwyr fynediad da i gyfrifiaduron, ac maent yn defnyddio ystod eang o gymwysiadau priodol yn eu gwaith yn annibynnol. Yn y pynciau a arolygwyd, gwelir defnydd rhagorol mewn Saesneg. Mewn gwyddoniaeth, hanes ac addysg gorfforol, mae nodweddion da a dim diffygion pwysig, ac yn y Gymraeg, mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion.

- 119 Mae myfyrwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn â'i gilydd. Maent yn gweithio'n gadarnhaol, gan ymgyfrannu'n dda mewn dadl ystyrion a gweithgareddau datrys-problemau. Mewn llawer o bynciau, mae myfyrwyr yn arddangos meddwl myfyriol, arloesi a chreadigrwydd yn eu rhesymu a'u dyfarniadau.
- 120 Gydag ond ychydig iawn o eithriadau, mae myfyrwyr yn gallu gweithio'n annibynnol a chymryd y camau angenrheidiol i symud eu cynnydd eu hunain ymlaen.

Cynnydd myfyrwyr mewn dysgu

- 121 Mae Cronfa Ddata Arholiadau Cymru yn darparu dadansoddiadau manwl o berfformiadau myfyrwyr mewn ystod o arholiadau. Mae'r fath wybodaeth yn dangos, pan gyfatebir canlyniadau lefel-A yr ysgol yn 2006 i gyflawniadau'r un myfyrwyr yn TGAU, maent yn datgelu 'gwerth-ychwanegol' sylweddol yn rhan fwyaf y pynciau a astudiwyd. Mewn geiriau eraill, mae myfyrwyr lefel-A yn Ysgol Dewi Sant yn gwneud cynnydd da, ac yn aml, cynnydd eithriadol rhwng TGAU a lefel-A yn y pynciau hyn.
- 122 Fel y dangoswyd yn y sylwadau a wnaed yn yr adroddiadau pwnc manwl sy'n dilyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mae llawer o fyfyrwyr bellach yn cyflawni safonau da neu ragorol. Mae myfyrwyr wedi ymrwymo i'w gwaith, ac maent yn gwneud cynnydd sy'n dda neu'n well.
- 123 Mae athrawon yn gweithio'n galed er mwyn helpu myfyrwyr ddod yn ddysgwyr annibynnol medrus sydd wedi'u paratoi'n dda ar gyfer dysgu y tu hwnt i'r ysgol. Mae myfyrwyr yn perfformio ystod eang o dasgau heriol yn llwyddiannus, gan weithio'n annibynnol neu gydag eraill, fel y bo hynny'n briodol. Maent yn ymgymryd â llawer o brosiectau ymchwiliol ac ymchwil â llwyddiant mawr.
- 124 Blwyddyn ar ôl blwyddyn, mae tua 63% o fyfyrwyr B11 yn aros yn Ysgol Dewi Sant ar gyfer eu gyrfaoedd chweched-dosbarth, ac mae ychydig o fyfyrwyr yn ymuno o ysgolion eraill. Mae rhwng 83% a 96% o fyfyrwyr B12 yn parhau i mewn i B13 i gwblhau eu hastudiaethau, ac mae llawer o'r rhain yn mynd ymlaen i addysg bellach neu uwch ar ôl gadael ysgol.

Datblygiad medrau personol, cymdeithasol a dysgu myfyrwyr

- 125 Mae agweddau myfyrwyr i ddysgu yn dda iawn. Mae eu gallu i weithio'n effeithiol gydag eraill yn rhagorol, a gellir ei weld ar draws y cwricwlwm. Mae myfyrwyr yn helpu'i gilydd yn effeithiol a pharchu barn eraill. Mae'r berthynas ragorol rhwng myfyrwyr a'u hathrawon yn sylfaen i'r addysgu a'r dysgu o ansawdd uchel sy'n digwydd yn yr ysgol. Mae hefyd yn atgyfnerthu'r teimlad rhagorol o gymuned sy'n bodoli yn yr ysgol.
- 126 Mae myfyrwyr yn ymddwyn yn dda iawn, ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol iawn i'r ysgol a'u gwaith. Maent yn aeddfed, ac maent yn chwarae rôl hynod o ddefnyddiol ym mywyd beunyddiol yr ysgol. Mae llawer o fyfyrwyr B12 yn gweithredu fel swyddogion yn ystod amser cinio, ac maent hefyd yn cynorthwyo myfyrwyr ieuengach gyda'u darllen. Maent hefyd yn trefnu nifer o ddigwyddiadau i gefnogi elusennau ac achosion da.

- 127 Mae presenoldeb yn y chweched-dosbarth ychydig yn is nag yw yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Mae prydlondeb i wersi a chyfarfodydd eraill yn dda iawn.
- 128 Mae dealltwriaeth a gwerthfawrogiad myfyrwyr o faterion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal a'u parch at amryfalaeth mewn cymdeithas yn nodweddion rhagorol yn eu datblygiad fel unigolion.
- 129 Mae llawer o gyfleoedd da i fyfyrwyr ddysgu am y gymuned a'r gweithle, a chael eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd ar ôl dyddiau ysgol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 130 Mae'r radd y gwnaethom ei dyfarnu yn cytuno â'r radd a gynigiwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

Cyfnodau allweddol 3 a 4

- 131 Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau y gwnaethom eu dyfarnu ar gyfer ansawdd yr addysgu ac asesu mewn gwersi yr arsylwyd arnynt yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn ystod yr arolygiad:

67 o wersi	% Gradd 1	% Gradd 2	% Gradd 3	% Gradd 4	% Gradd 5
Cyfnod allweddol 3	35	53	12	0	0
Cyfnod allweddol 4	24	61	15	0	0
CA3/CA4 ar y cyd	30	57	13	0	0
<i>Ffigurau cenedlaethol ar gyfer B7 i (2005/2006)</i>	17	52	26	5	0

(Am eglurhad o'r graddau a wnewch chi gyfeirio at ddechrau'r adroddiad)

Pa mor dda mae addysgu a hyfforddiant yn cwrdd ag anghenion dysgwyr a gofynion y cwricwlwm a'r cwrs?

- 132 Fel y mae'r tabl yn dangos, mae cyfran y gwersi y dyfarnwyd gradd 1 neu radd 2 iddynt (87%) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (69%) a gofnodwyd ar gyfer 2005/2006, gyda 30% rhagorol ar radd 1. Mae'r ffigurau hefyd yn nodi gwelliant ar y rhai hynny a gyflawnwyd adeg yr arolygiad blaenorol ar gyfer y cyfnodau allweddol hyn.
- 133 Mae addysgu da iawn sy'n aml yn rhagorol yn nodwedd amlwg o'r ysgol. Pan y'u cyfwelwyd, gwnaeth myfyrwyr ym mhob grŵp-oed wneud sylwadau cadarnhaol iawn ac unfrydol ynglŷn ag ansawdd uchel yr addysgu, a'r cymorth y maent yn eu derbyn.
- 134 Mae canlyniadau arholiadau ac arsylwadau o wersi yn cadarnhau fod gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel a'u bônt yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu i herio a chymell yr holl fyfyrwyr yn barhaus i gyflawni rhagoroldeb. Mae brwdfrydedd ac ymroddiad y staff addysgu yn un o gryfderau mawr yr ysgol ac yn rheswm arwyddocaol iawn am ganlyniadau arholiadau a chanlyniadau eraill gwyach yr ysgol yn y ddau gyfnod allweddol.
- 135 Mae'r holl athrawon oddi mewn i'r amrywiol feysydd-pwnc naill yn arbenigwyr yn y pynciau hynny, neu maent wedi derbyn addysg a hyfforddiant mewn-swydd rheolaidd neu fentora yn-yr-ysgol er mwyn darparu'r wybodaeth, dealltwriaeth a medrau priodol iddynt. Mae hyn wedi sicrhau bod ansawdd yr addysgu o safon uchel iawn.

- 136 Mae cynlluniau gwaith manwl yn dangos fod athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer yr holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai hynny ag anghenion addysgol arbennig, a darperir cyfleoedd priodol hefyd ar gyfer datblygu medrau-allweddol.
- 137 Mae'r berthynas rhwng staff a myfyrwyr yn rhagorol. Mae athrawon yn adnabod eu myfyrwyr yn dda, ac mae hi'n eglur fod myfyrwyr yn parchu eu hathrawon a gwerthfawrogi'r ymdrech y maent yn ei wneud i'w helpu i gyflawni eu potensial. Gwelir tystiolaeth o hyn yn y nifer isel o waharddiadau a'r nifer fawr iawn o fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan eu hathrawon.
- 138 Defnyddir cynorthwywyr cymorth-dysgu yn effeithiol i gynorthwyo myfyrwyr ag anghenion arbennig mewn dosbarthiadau prif-ffrwd. Mae rhai myfyrwyr yn mynd i'r 'Ystafell Goch' neu at y llyfrgellydd am gymorth penodol gyda medrau sylfaenol. Mae canlyniadau arholiadau a phrofion yn cadarnhau bod myfyrwyr ag anghenion arbennig yn gwneud cynnydd da, yn enwedig o ran eu medrau sylfaenol.
- 139 Mae llawer o'r athrawon wedi cael profiad o weithio fel arholwyr TGAU neu lefel-A, ac mae gan un brofiad o weithio yn y gwasanaeth ymgynghorol mewn awdurdod unedol. Mae'r fath weithgareddau wedi cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir yn eu pynciau perthnasol.
- 140 Mae athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd i fyfyrwyr weithio'n annibynnol ac mewn grwpiau i ddatblygu medrau datrys-problemau a chreadigol.
- 141 Lle bo nodweddion rhagorol yn yr addysgu mae hyn am fod:
- gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'u holl fyfyrwyr a gwireddir y rhain mewn tasgau ysgogol a heriol;
 - athrawon yn darparu adborth trylwyr a manwl i fyfyrwyr i'w helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â'r hyn i'w wneud nesaf er mwyn gwneud cynnydd;
 - athrawon yn annog myfyrwyr i adolygu ac arfarnu eu caffaeliad o, a datblygiad eu medrau-allweddol;
 - athrawon yn defnyddio ystod o dechnegau cwestiynau sy'n archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr, a rhoi ymwneud i'r holl ddysgwyr; a hefyd am fod
 - gan athrawon y berthynas ragorol y soniwyd amdani uchod gyda'u myfyrwyr.
- 142 Mae hefyd llawer o nodweddion da yn gysylltiedig â'r addysgu yn yr ysgol. Er enghraifft, mae athrawon:
- yn rhoi ymwneud i fyfyrwyr wrth arddangos agweddau o wersi ac asesu gwaith ei gilydd, ac felly gwella eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pynciau dan sylw;
 - yn defnyddio ystod o ddyfeisiadau technolegol modern yn effeithiol iawn, megis bwrdd-gwyn rhyngweithiol, i wella gwersi;
 - yn gwneud defnydd effeithiol o'r amser sydd ar gael iddynt mewn gwersi;
 - yn gadael i fyfyrwyr wybod yr hyn y disgwylir iddynt ei ddysgu yn ystod gwrs a thros amser, er mwyn iddynt allu mesur eu cynnydd eu hunain a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain;
 - yn rhoi'n rhydd o'u hamser eu hunain er mwyn rhoi cymorth a chyfarwyddyd ychwanegol i'w myfyrwyr; a hefyd

- yn paratoi adnoddau dysgu da, er mwyn rhoi mynediad i'r holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai hynny ag anghenion arbennig, a chyflawnwyr uchel, i gyfleoedd dysgu priodol.

143 Er bod addysgu yn dda iawn at ei gilydd, mae achlysuron pan fo diffygion yn digwydd. Mae hyn am:

- fod athrawon weithiau yn caniatáu myfyrwyr i ddrifftio oddi ar y dasg;
- nad yw athrawon yn cywiro gwallau sillafu a/neu ramadeg myfyrwyr;
- fod athrawon yn cynnal gwersi ar dempo rhy araf; a hefyd
- am nad ydynt yn annog myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn ogystal mewn sefyllfaoedd pob-dydd.

Trylwyredd asesu a'i ddefnydd mewn cynllunio a gwella dysgu

144 Mae gan asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau ar gyflawniadau myfyrwyr nodweddion da a dim diffygion pwysig. Mae polisi a chanllawiau'r ysgol yn gynhwysfawr, ac maent yn cysylltu ag asesu ar gyfer dysgu. Mae'r holl gyfadrannau wedi gweithredu'r polisi hwn yng nghyfnodau allweddol 3 a 4.

145 Ym mis Medi B7, defnyddir data o amrywiaeth o brofion, ynghyd ag asesuadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, i ganfod myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a gosod myfyrwyr mewn setiau mewn pynciau. Defnyddir y data hwn hefyd i ragfynegi lefelau a graddau ac felly, canfod cynnydd ac unrhyw dangyflawni. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol gan y cydlynnydd medrau-allweddol.

146 Mae marcio llyfrau a phrofion o ddydd-i-ddydd yn dda. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r holl adrannau yn defnyddio fformat cyffredin ar gyfer cyflawniad, gyda marc am ymdrech yn ogystal. Yng nghyfnod allweddol 4, wedi gradd TGAU briodol, rhoddir marc am ymdrech. Mewn nifer o bynciau, mae sylwadau adeiladol er mwyn hysbysu myfyrwyr ynglŷn â chryfderau a gwendidau eu gwaith ac awgrymu dulliau ynglŷn â sut i wella. Fodd bynnag, mae ansawdd y sylwadau hyn yn amrywio ar draws ac oddi mewn i gyfadrannau. Weithiau, mae'r sylwadau hyn yn rhy gyffredinol ac maent yn ddiffygiol o ran pwrpas. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio asesu'n dda i'w helpu i gynllunio gwersi mwy effeithiol.

147 Mae dealltwriaeth myfyrwyr o'r gyfundrefn asesu yn rhagorol. Maent yn ymwneud yn rheolaidd mewn asesu cymheiriaid a'u hunanasesu eu hunain, ac maent yn gallu gosod targedau eglur, ystyrion i'w hunain.

148 Mae pob pennaeth cyfadran yn cofnodi marciau profion yn rheolaidd, ac adolygir cyflawniadau myfyrwyr yn gyson. Mae athrawon pwnc a phenaethiaid cyfadrannau yn cydnabod gwaith da a chanfod tangyflawni. Ar ddiwedd mis Chwefror, cynhelir hunan-adolygiad myfyriwr manwl ym mhob pwnc. Mae'r adolygiad yn cynnwys rhestru cryfderau, gwendidau a thargedau ar gyfer gwelliant. Mae uwch-staff bugeiliol ac academiaidd yn monitro'r prosesau a'r deilliannau yn effeithiol. Dilynir yr adolygiadau hyn, sy'n gweithredu fel adroddiad interim, gan nosweithiau rhieni. Mae arweinwyr bugeiliol a phenaethiaid cyfadrannau yn canfod tangyflawnwyr ac yna, monitrir y myfyrwyr hyn yn agos.

- 149 Yn ogystal â'r uchod, paratwir adroddiad blynyddol cynhwysfawr sydd wedi'i strwythuro'n dda ar gyfer pob myfyriwr. Mae pob maes pwnc yn cynnig sylwadau ar gyflawniad, cryfderau, gwendidau, sut i wella a gosod targedau ar gyfer myfyrwyr. Fodd bynnag, mae amrywiadau eang yn ansawdd sylwadau athrawon a gosod targedau pendant, manwl gywir. Mae'r amrywiadau hyn ar draws ac oddi mewn meysydd pwnc. Mae cyflwyno adroddiadau yn diwallu gofynion statudol.
- 150 Mae'r holl benaethiaid cyfadranau yn dadansoddi canlyniadau arholiadau allanol yn fanwl. Mewn trafodaethau â'r dirprwy-benaeth, cytunir targedau realistig a heriol ar gyfer gwelliant. Yn ogystal, mae penaethiaid cyfadranau yn cymedroli gwaith oddi mewn i adrannau er mwyn sicrhau bod asesiadau yn deg a chywir. Diwellir gofynion byrddau arholi, y Cwricwlwm Cenedlaethol a Chôd Ymarfer Anghenion Arbennig.
- 151 Yn y chwe phwnc a arolygwyd, mae asesu yn y Gymraeg ac addysg gorfforol yn rhagorol. Mae'r arfer da hwn wedi'i gydnabod, ac mae'r ysgol yn cydnabod yr angen am ddatblygiad pellach ar draws meysydd pwnc.

Y chweched-dosbarth

- 152 Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau a ddyfarnwyd ar gyfer ansawdd addysgu ac asesu yn y gwersi chweched-dosbarth yr arsylwyd arnynt yn ystod yr arolygiad:

21 o wersi	% Gradd 1	% Gradd 2	% Gradd 3	% Gradd 4	% Gradd 5
Ôl-16	38	57	5	0	0
<i>Ffigurau cenedlaethol ar gyfer B7 i B13 (2005/2006)</i>	17	52	26	5	0

(Am eglurhad o'r graddau a wnewch chi gyfeirio at ddechrau'r adroddiad)

Pa mor dda mae addysgu a hyfforddiant yn cwrdd ag anghenion dysgwyr a gofynion y cwricwlwm a'r cwrs?

- 153 Fel y mae'r tabl yn ei ddangos, mae ffigurau chweched-dosbarth yr ysgol yn sylweddol uwch na chyfartaleddau cenedlaethol 2005/2006 ar gyfer yr holl addysgu mewn ysgolion uwchradd, gyda nodweddion rhagorol mewn bron bedwar-deg y cant o'r addysgu. Fel yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae'r cyfrannau hyn yn welliant ar y ffigurau a gofnodwyd adeg yr arolygiad blaenorol. Mae addysgu da iawn yn nodwedd hynod o gadarn o ddarpariaeth chweched-dosbarth.
- 154 Mae holl nodweddion da a rhagorol yr addysgu yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 hefyd yn bresennol yn y chweched-dosbarth. Yn ogystal, mae gan lawer o athrawon ddealltwriaeth ragorol o ofynion arholiadau allanol, ac maent yn defnyddio hon er budd mawr gyda'u myfyrwyr wrth eu paratoi ar gyfer y profion sy'n eu hwynebu.
- 155 Oherwydd llwyddiant rhagorol hanes yn lefel-A, rhaid amlygu'r addysgu yn y pwnc hwn fel prif gryfder ansawdd yr addysg a ddarperir yn y chweched-dosbarth.
- 156 Mae nodweddion rhagorol sy'n fwy cyffredin yn y chweched-dosbarth yn cynnwys:
- cyfarwyddyd manwl iawn ynglŷn ag arwyddocâd cynlluniau marcio arholiadau;

- gwybodaeth bwnc o ddyfnder ac ehangder eithriadol;
- marcio ac adborth trylwyr a manwl iawn; a hefyd
- y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael ym mhob gwers.

- 157 Mae athrawon yn rhoi ymwneud i fyfyrwyr yn rheolaidd mewn tasgau ymchwil estynedig a heriol iawn er mwyn eu cynorthwyo i ddod yn ddysgwyr mwy annibynnol a'u paratoi'n dda ar gyfer dysgu y tu hwnt i ysgol.
- 158 Gwnaeth fyfyrwyr sylwadau cadarn iawn ynglŷn ag ansawdd uchel yr addysgu y maent yn ei dderbyn yn y chweched-dosbarth. Dangosasant eu bod yn gosod gwerth ar y wybodaeth drwyadl y mae'n ymddangos fod gan athrawon o'u cryfderau a'u gwendidau, a sut y maent yn cydweithio mewn amgylchedd cyfeillgar ond heriol. Gwnaethant wneud y sylw, oherwydd maint yr ysgol, "Allwn ni wneud dim heb iddyn nhw wybod!"

Trylwyrredd asesu a'i ddefnydd mewn cynllunio a gwella dysgu

- 159 Mae asesu gwaith a chynnydd myfyrwyr yn dda ac yn unol â pholisi'r ysgol.
- 160 Mae athrawon yn sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod a deall gofynion y byrddau arholi a'r meini prawf ar gyfer llwyddiant. Pan gaiff gwaith ei farcio, mae athrawon yn ysgrifennu sylwadau addysgiadol sy'n galluogi myfyrwyr i ganfod dulliau o wella.
- 161 Monitrir cynnydd myfyrwyr yn dda; yn y lle cyntaf gan benaethiaid cyfadran ac yna gan is-bennaeth sy'n bennaeth y chweched-dosbarth. Mae myfyrwyr sydd angen cymorth yn derbyn cymorth a chyfarwyddyd da.
- 162 Mae myfyrwyr yn arfarnu ansawdd eu cyflawniad eu hunain yn dda, ac maent yn canfod dulliau o wella eu safonau eu hunain.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 163 Mae'r radd y gwnaethom ei dyfarnu yn cytuno â'r radd a gynigiwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

Y graddau y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a buddiannau dysgwyr

Mae'r cwricwlwm:

- yn cwrdd ag anghenion dysgu myfyrwyr, ac mae'n adlewyrchu'r nodau a osodir allan ar gyfer myfyrwyr oed-ysgol statudol yn Neddf Addysg 1996;
- yn hyrwyddo cydbwysedd ac ehangder astudio priodol a chynnydd dysgu;
- yn sicrhau mynediad rhagorol i'r cwricwlwm ar gyfer yr holl fyfyrwyr a chyfle cyfartal er mwyn cyflawni safonau uchel;
- yn diwallu'r holl ofynion cyfreithiol; a hefyd

- yn darparu addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd, addysg gysylltiedig-â-gwaith ag addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

164 Mae nodweddion da yn y ddarpariaeth gwricwlaidd yn cynnwys:

- yr holl fyfyrwyr yng nghyfnod allweddol 4 yn astudio cwrs TGAU llawn yn y Gymraeg;
- y myfyrwyr bron i gyd yng nghyfnod allweddol 4 yn sefyll o leiaf un arholiad TGAU; a hefyd
- ystod dda o gyrsiau UA a lefel-A sy'n denu nifer fawr o fyfyrwyr yn ôl i'r chweched-dosbarth.

165 Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth ennill Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol dair gwaith ers 1998. Mae cynlluniau gwaith yn canfod cyfleoedd da i fyfyrwyr ddefnyddio medrau-allweddol cyfathrebu, rhif technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ynghyd â'r medrau-allweddol ehangach. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ymgymryd ag arfer mapio trylwyr ym mhob blwyddyn, gyda golwg ar gael achrediad ar gyfer y chwe medr allweddol yn y dyfodol agos.

166 Mae ystod ragorol o weithgareddau allgyrsiol sy'n ehangu profiadau myfyrwyr a hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys nifer fawr o fyfyrwyr. Mae cyfleoedd helaeth i fyfyrwyr wneud y canlynol:

- ymuno ag amrywiaeth o glybiau yn ystod yr awr ginio ac ar ôl ysgol;
- cynrychioli'r ysgol mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon, gyda rhai myfyrwyr yn ennill anrhydeddau sirol, rhanbarthol neu genedlaethol;
- cymryd rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin i lefel Aur;
- cymryd rhan mewn cynyrchiadau, dysgu chwarae offerynnau cerdd, ymuno â chorau a cherddorfeydd;
- ymweld â theatrau lleol a chenedlaethol, amgueddfeydd, safleoedd hanesyddol a chymryd rhan mewn nifer o ymweliadau maes; a hefyd
- profi nifer o ymweliadau dramor at ddibenion cyfnewid addysgol a gweithgareddau cymdeithasol.

167 Mae datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol myfyrwyr yn dda gyda nodweddion rhagorol. Y nodweddion rhagorol yw bod myfyrwyr:

- yn barchus ac ystyrlon o eraill;
- yn ymwybodol o faterion sensitif megis rhagfarn, hiliaeth a hawliau'r unigolyn;
- ymgymryd cyfrifoldeb a chydweithredu mewn modd rhagorol ag eraill;
- datblygu hunanddisgyblaeth, ymddygiad cyfrifol a pharch tuag at amgylchedd yr ysgol;
- helpu a gofalu am ei gilydd ynghyd â phlant a phobl sy'n llai ffodus na hwy eu hunain; a hefyd eu bod
- yn ymwybodol o ddiwylliannau eraill ac yn parchu amryfalaeth a dulliau byw pobl eraill.

168 Mae nodweddion da yn natblygiad ysbrydol myfyrwyr. Trwy gyfrwng gweithrediadau o addoli ar y cyd beunyddiol, yr Undeb Cristnogol a phrofiadau a geir mewn nifer o bynciau, rhoddir cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu:

- ymdeimlad o ryfeddod a chwilfrydedd ynglŷn â bywyd a'r byd; a hefyd
- dealltwriaeth o lawer o gredau a gwerthoedd.

169 Cyfoethogir profiadau dysgu myfyrwyr yn sylweddol trwy bartneriaeth yr ysgol â rhieni, y gymuned ac eraill sy'n darparu addysg. Mae'r cyfnewidiadau gwybodaeth confensiynol gyda rhieni, ysgolion cynradd, y gymuned a cholegau yn sicrhau y diwellir anghenion bugeiliol a dysgu myfyrwyr, eu bod yn dda, wedi'u rheoli'n dda a'u bod yn effeithiol. Oddi mewn i'r rhain, mae'r canlynol yn nodweddion rhagorol:

- bodlonrwydd parod i ennyn barn myfyrwyr a rhieni ynglŷn â phrosesau a darpariaeth yr ysgol trwy gyfrwng holiadur, ac felly dylanwadu ar gynllunio a rheolaeth;
- lefel cymorth rhieni i'r ysgol trwy Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ffyniannus a phresenoldeb eithriadol o uchel mewn nosweithiau rhieni ac achlysuron eraill;
- maint ymwneud yr ysgol â'r gymuned trwy gerddoriaeth, gweithgareddau elusennol a chymorth gwirfoddol mewn llawer o flaengareddau; a hefyd
- ehangder a rheolaeth trefniadau trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Yn ogystal â'r cymorth bugeiliol gwych, mae ystod hynod o eang o gysylltiadau pontio cwricwlaidd.

170 Er nad yw'n nodwedd ragorol, mae hi'n nodedig fod ysgol o faint Ysgol Dewi Sant yn cynnal cysylltiadau da gyda nifer o sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon. Mae myfyrwyr-athrawon yn ychwanegu ehangder yn rheolaidd i'r profiadau dysgu a gynigir yn yr ystafell ddosbarth.

Y graddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach

171 At ei gilydd, mae addysg gysylltiedig-â-gwaith yn dda. Y prif nodweddion yw profiad-gwaith sydd wedi'i drefnu'n dda ar gyfer cyfnod allweddol 4 a myfyrwyr B12, ac ystod o ddigwyddiadau cynorthwyol defnyddiol ar draws y blynyddoedd hyn. Mae nifer o nodweddion da, sy'n cynnwys:

- rhaglen y siaradwyr, digwyddiadau a gweithgareddau datrys-problemau a/neu adeiladu-tîm yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched-dosbarth;
- y cyfleoedd a gynigir i fyfyrwyr B9, B11 a B12 i archwilio dewisiadau opsiwn parthed eu dyheadau gyrfaoel gydag ymgynghorydd proffesiynol; a hefyd
- perthynas gynorthwyol gyda chyflogwyr lleol.

172 Mae diffyg am mai ychydig o gyfleoedd y mae myfyrwyr cyfnod allweddol 3 yn eu cael i archwilio byd gwaith drostynt eu hunain neu archwilio eu medrau arweinyddiaeth a menter.

- 173 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dwyieithrwydd yn dda. Wrth ddod i mewn i B7, mae uwch-ddysgwyr yn dilyn y cwrs Cymraeg iaith-gyntaf o'r cychwyn cyntaf. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r holl fyfyrwyr ail-iaith yn dilyn y cwrs TGAU llawn. Mae nifer y myfyrwyr ôl-16 sy'n astudio'r Gymraeg wedi cynyddu'n ddramatig..
- 174 Mae adran y Gymraeg yn trefnu llawer o weithgareddau allgyrsiol er mwyn i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau a chyrsiau preswyl, cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd, gweithgareddau chwaraeon, a gwasanaethau a chyngherddau dwyieithog yn yr Eglwys Gadeiriol. Mae'r eisteddfod, y mae'r holl adrannau yn cyfrannu iddi, yn ddigwyddiad pwysig a gwerthfawr yng nghalendr yr ysgol. Defnyddir y Gymraeg gan rai myfyrwyr iaith-gyntaf mewn gwersi ac arsylwyd ar hyn hefyd mewn rhai grwpiau tiwtor. Nid yw'r arfer da hwn yn amlwg o gwmpas yr ysgol, ac felly nid yw'r myfyrwyr i gyd yn mwyhau eu potensial i ddod yn gwbl ddwyieithog.
- 175 Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn nodweddu'n amlwg yn rhan fwyaf y pynciau. Nid yw wedi'i sylfaenu'n llawn eto yng nghynlluniau gwaith pob pwnc.
- 176 Mae nifer o nodweddion da wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys:
- clwb-Eco sefydledig y mae nifer o grantiau sylweddol wedi'u dyfarnu iddo i hyrwyddo ei waith;
 - myfyrwyr yn ymwneud â phrosiectau amgylcheddol cymunedol ar y cyd â Pharc Cenedlaethol Sir Benfro;
 - datblygu gardd goffa ar ardal ddynodedig oddi mewn i'r ysgol; a hefyd
 - sylw da mewn nifer o bynciau.
- 177 Mae'r ysgol yn cynnal ymwybyddiaeth dda a chyfredol o anghenion cyflogwyr trwy:
- bartneriaeth gadarn sydd wedi'i sefydlu'n dda â Gyrfa Cymru;
 - ddealltwriaeth y Llywodraethwyr o'r gymuned leol; a
 - cysylltiadau cyd-fuddiol gyda mentrau yn y gymuned.
- 178 Mae'r ysgol yn datblygu medrau entrepreneuriaidd yn dda. Mae datrys-problemau yn nodwedd reolaidd, ddefnyddiol ac sydd wedi'i datblygu'n dda o wersi ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched-dosbarth mae cyfleoedd helaeth a da i fyfyrwyr ymwneud ag adeiladu-tîm a gweithgareddau medrau cystadleuol, ynghyd â dysgu oddi wrth entrepreneuriaid mewn cyflwyniadau ystafell-ddosbarth. Mae llai o gyfleoedd yng nghyfnod allweddol 3 i brofi'r gweithgareddau hyn.
- 179 At ei gilydd, mae'r ysgol wedi cynllunio cwricwlwm sy'n cwrdd ag anghenion ei myfyrwyr, ac mae'n adlewyrchu rhan fwyaf blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cwricwlwm yn darparu ystod eang o brofiadau, ac mae'n gosod sylfaen gadarn ar gyfer dysgu gydol-oes.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

180 Mae'r radd y gwnaethom ei dyfarnu yn cytuno â'r radd a gynigwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

Ansawdd y gofal, cymorth a chyfarwyddyd i ddysgwyr

181 Mae'r ysgol yn cynllunio a rheoli trefniadau gofal yn effeithiol iawn. Mae perthynas ragorol rhwng athrawon a dysgwyr. Mae hyn yn meithrin ethos hapus a gofalgar lle gosodir gwerth ar bob unigolyn.

182 Pan gawsant eu cyf weld, gwnaeth fyfyrwyr sylwadau cadarnhaol iawn ynglŷn ag ansawdd uchel y cymorth a'r cyfarwyddyd y maent yn ei dderbyn yn yr ysgol.

183 Mae'r nodweddion rhagorol a ganfuwyd yn ansawdd y gofal, cymorth a'r cyfarwyddyd a ddarperir ar gyfer dysgwyr yn cynnwys:

- trefniadau gofal effeithiol iawn sydd wedi'u rheoli'n dda;
- ansawdd cynorthwyol rhagorol y berthynas rhwng athrawon a dysgwyr;
- cyfundrefn effeithiol ar gyfer sicrhau darlun cynhwysfawr o berfformiad myfyrwyr ar draws y cwricwlwm sy'n canfod yn gyflym myfyrwyr sy'n tangyflawni;
- rhaglen sy'n sicrhau bod yr holl fyfyrwyr sy'n newydd i'r ysgol yn setlo i mewn yn gyflym; a hefyd
- cysylltiadau ystyrlon a chwricwlaidd gydag ysgolion cynradd partner.

184 Mae nodweddion da yn ansawdd y gofal, cymorth a'r cyfarwyddyd yn cynnwys:

- penaethiaid ysgol a thiworiaid dosbarth, sy'n cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol wrth iddynt fonitro lles ac ymddygiad y dysgwyr yn eu gofal;
- cymorth ychwanegol da a ddarperir gan arweinwyr pwnc ac uwch-reolwyr ar gyfer y myfyrwyr sydd wedi'u canfod fel rhai sy'n tangyflawni;
- cydweithredu effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol;
- y Cyngor Ysgol, sy'n weithredol wrth gyfrannu mewn modd cadarnhaol i fywyd yr ysgol;
- perthynas gadarnhaol gyda rhieni;
- gwybodaeth a rennir gyda rhieni trwy'r defnydd da a wneir o'r Cynllunydd Myfyriwr;
- gwybodaeth ddefnyddiol yn llawlyfr y rhieni;
- monitro manwl ac effeithiol o bresenoldeb a phrydlondeb myfyrwyr;
- gwaith bugeiliol yr ysgol a fwyheir ac a gynorthwyir gan y rhaglen addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol;
- athrawon a'r Swyddog Gyrfaoedd sy'n cynnig cyfarwyddyd da a pherthnasol i fyfyrwyr pan fônt yn gwneud dewisiadau gyrfaoedd wrth iddynt drosglwyddo i B10 ac addysg Ôl-16;
- cysylltiadau gyda chyflogwyr lleol;
- Nyrs yr ysgol, sy'n ffynhonnell werthfawr o gymorth a chyngor ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd;

- gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer rheolaidd;
- gweithdrefnau sydd wedi'u dogfennu'n eglur ar gyfer sicrhau lles, iechyd a diogelwch myfyrwyr; a hefyd
- bod y staff i gyd yn gyfarwydd â gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â materion sy'n ymwneud â diogelu plant.

185 Fodd bynnag, mae diffyg, oherwydd cyflwynwyd adroddiad ynglŷn â rhai materion iechyd a diogelwch i'r pennaeth yn ystod wythnos yr arolygiad.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

186 Mae gan ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol nifer o nodweddion rhagorol, sy'n cynnwys:

- defnydd eang ac effeithiol o gynorthwywyr cymorth-dysgu;
- mesurau effeithiol sy'n sicrhau nad yw ymddygiad myfyrwyr ag anawsterau ymddygiadol yn effeithio ar gynnydd dysgwyr eraill;
- cysylltiadau rhagorol gydag ysgolion cynradd partner sy'n sicrhau canfod myfyrwyr a fydd angen cymorth ychwanegol pan fônt yn trosglwyddo; a hefyd
- cymorth academaidd a bugeiliol rhagorol a ddarperir ar gyfer myfyrwyr yng nghanolfan cymorth-dysgu ychwanegol yr ysgol.

187 O ganlyniad i'r fath gymorth, mae llawer o fyfyrwyr sydd ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yn cyflawni llwyddiant rhagorol yn eu harholiadau TGAU, UA a lefel-A.

188 Mae hefyd nifer o nodweddion da, sy'n cynnwys:

- gweithrediad effeithiol o Gôd Ymarfer Anghenion Arbennig;
- gwybodaeth dda a ddarperir am anghenion myfyrwyr ar gyfer athrawon prif-ffrwd, er mwyn iddynt allu cynllunio gwaith sy'n addas ar gyfer y dysgwyr hyn;
- defnydd da o amrywiol asiantaethau er mwyn darparu arbenigedd arbenigol;
- cynlluniau addysgol ac ymddygiadol da gyda thargedau penodol er mwyn dweud wrth fyfyrwyr sut y gallant wella;
- staff yn gweithio mewn cydweithrediad agos â rhieni;
- cymorth priodol ar gyfer nifer fechan o fyfyrwyr ag anawsterau dysgu penodol oddi wrth arbenigwyr yr awdurdod unedol;
- amrywiaeth o strategaethau effeithiol ar gyfer gwella rhifedd a llythrennedd myfyrwyr; a hefyd
- y Cynllun Darllen Byti, sy'n llwyddiannus wrth wella a datblygu darllen myfyrwyr.

189 Mae diffyg oherwydd bod yr ystafell cynorthwyo-dysgu yn fach ar gyfer nifer y myfyrwyr sy'n ei defnyddio.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle-cyfartal

190 Mae gan y ddarpariaeth ar gyfer cyfle-cyfartal nifer fawr o nodweddion rhagorol gan gynnwys:

- hyrwyddo gwerthfawrogiad myfyrwyr o faterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb hiliol a chymdeithasol trwy addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd, addysg grefyddol a gweithgareddau allgyrsiol;
- ethos dysgu lle gall myfyrwyr ddisgwyl bod yn rhydd o aflonyddwch ac anffafiaeth;
- rhoddir cymorth sensitif ac effeithiol i fyfyrwyr os yw problemau'n codi yn yr ysgol;
- derbynnir myfyrwyr o grwpiau lleiafrifol ethnig heb unrhyw anhawster, a chânt eu hintegreiddio'n naturiol i mewn i fywyd ysgol;
- myfyrwyr a rhieni yn hyderus y buasai'r ysgol yn ymateb yn ddiymdroi i unrhyw achos o annhegwch neu anffafiaeth; a hefyd
- yr ysgol yn cydnabod amryfalaeth cefndiroedd myfyrwyr ac yn darparu cwricwlwm hyblyg ar eu cyfer.

191 Mae'r nodweddion da yn y ddarpariaeth ar gyfer cyfle-cyfartal yn cynnwys:

- llwyddiannau unigol myfyrwyr yn cael eu canmol yn rheolaidd;
- gweithrediadau'r ysgol wrth fonitro a chymharu canlyniadau arholiadau bechgyn a merched;
- yr holl opsiynau pwnc ar gael i bob myfyriwr;
- herio ystrydebu wrth gynghori myfyrwyr yn eu hopsiynau, ac mewn gweithgareddau chwaraeon;
- darparu cymorth da i fyfyrwyr yng ngofal yr awdurdod unedol a chael perthynas waith dda gyda'r asiantaethau perthnasol;
- llwyddiant da wrth hyrwyddo ymddygiad da, trwy osod targedau unigol ar gyfer myfyrwyr;
- cysylltu'n ddiymdroi â'r cartref os nad yw myfyriwr yn cwrdd â disgwyliaid uchel yr ysgol;
- myfyrwyr anabl yn gallu cael mynediad i bob rhan o'r ysgol;
- myfyrwyr yn hyderus iawn y buasai'r ysgol yn delio gydag unrhyw ddigwyddiad o fwlian yn gyflym ac effeithiol; a hefyd
- myfyrwyr yn werthfawrogol iawn o'r cymorth a roddir gan athrawon a staff nad ydynt yn dysgu.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

192 Mae'r radd y gwnaethom ei dyfarnu yn cytuno â'r radd a gynigiwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad eglur a hyrwyddo safonau uchel

193 Mae dadansoddiad o ddata perfformiad myfyrwyr oddi mewn i Gwestiwn Allweddol 1 yn gymorth i gadarnhau dyfarnu gradd 1 ar gyfer y Cwestiwn Allweddol hwn.

194 Mae'r pennaeth a'r dirprwy-bennaeth yn arweinwyr a rheolwyr neilltuol o lwyddiannus. Cyfiawnheir athroniaeth eu harddull golegol ddewisedig yn llawn yn sgîl y gwelliannau sydd wedi digwydd dros amser yn yr ysgol. Mae gweithrediad eu dulliau rheolaeth dewisedig, gan gynnwys atebolrwydd athrawon, trwy brosesau monitro, arfarnu a gosod targedau, wedi bod yn rhagorol o lwyddiannus wrth gynnal a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws holl adrannau'r ysgol.

195 Mae aelodau'r grŵp arweinyddiaeth yn darparu cyfeiriad strategol da iawn i'r ysgol. Defnyddir arbenigedd a chryfderau pob aelod yn y modd gorau oll wrth gyrchu tuag at gyflawni nodau'r ysgol.

196 Mae gan yr ysgol ethos cadarnhaol, cyfeillgar a gofalgar iawn sy'n deillio o ymrwymiad y llywodraethwyr a'r staff i'w datganiad cenhadaeth, "Ymdrechgu am welliant parhaus mewn ysgol sy'n ofalgar a lle bo disgyblaeth yn dda, ac sy'n annog a disgwyl pob myfyriwr i gyflawni ei l/llawn botensial". Oherwydd ansawdd uchel yr arweinyddiaeth ac ymrwymiad cynifer i helpu myfyrwyr yr ysgol i gyflawni eu potensial, mae'r nod hwn yn cael ei gyflawni bellach.

197 Mae arweinwyr a rheolwyr yr ysgol, ar bob lefel, wedi bod yn rhagorol o lwyddiannus wrth ddarparu cyfeiriad eglur i'r ysgol. Yn wir, nid yn unig y rhennir cred y gall yr ysgol gynnal ei llwyddiant ar bob lefel, ond hefyd rhennir penderfyniad i wella safonau cyflawniad ymhellach eto, er gwaethaf cyfyngiadau amlwg y diffygion yn yr adeiladau a'r ystafelloedd.

198 Mae'r ysgol yn llwyddiannus yn ei pholisi o hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, a gwelir hyn yn:

- argaeledd cwricwlwm eang a phriodol ar gyfer yr holl fyfyrwyr o bob gallu;
- cyfundrefnau rhagorol ar gyfer cymorth a chyfarwyddyd sy'n rhoi'r cyfleoedd gorau i'r holl fyfyrwyr i lwyddo; a hefyd
- y trefniadau arbennig a wnaed ar gyfer myfyrwyr ag ystod o anghenion addysgol arbennig.

- 199 Defnyddir gosod-targedau'n effeithiol yn yr ysgol. Mae targedau, tra'n heriol, yn realistig, ac angen ymdrech gyson ar ran y rhai y'u gosodwyd ar eu cyfer, os ydynt i'w cyflawni. Mae arweinwyr, rheolwyr, athrawon a myfyrwyr yn ymwneud yn y broses o osod targedau. Trafodir ac adolygir targedau yn rheolaidd, ac os oes angen, fe'u newidir. Gosodir targedau diwedd cyfnod allweddol yn seiliedig ar gyrhaeddiad blaenorol a gwybodaeth o feysydd pwnc, a gytunwyd gan yr holl randdeiliaid, ac fe'u hysbysir yr holl staff, grwpiau ac unigolion. Gwneir defnydd eang o ystod eang o ddata dibynadwy er mwyn dylanwadu ar y broses o osod targedau, ac mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth gwrdd â, a rhagori ar ei thargedau yn rhan fwyaf y meysydd darpariaeth.
- 200 Mae'r ysgol yn cymryd sylw priodol o flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwelliant, ac mae'n eu cynnwys yn ei chynlluniau datblygu. Mae llawer o'r blaenoriaethau hyn yn cael effaith lesol oddi mewn a thu hwnt i'r ysgol. Er enghraifft, mae cysylltiadau gydag ysgolion cynradd partner yn dda iawn, gan sicrhau trosglwyddiad hawdd ac effeithiol i fyfyrwyr.
- 201 Mae cyfundrefnau'r ysgol ar gyfer hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- mentora effeithiol o athrawon sydd newydd gymhwyso;
 - adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi-staff gan benaethiaid cyfadrannau;
 - mentora'r holl staff drwy gyfweiliadau rheoli perfformiad; a hefyd
 - y cyfundrefnau hynod o drylwyr ar gyfer monitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu ym mhob cyfnod allweddol.
- 202 Mae chweched-dosbarth yr ysgol wedi mwynhau llwyddiant sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Mae niferoedd myfyrwyr wedi codi'n sylweddol, ac roedd cyrhaeddiad myfyrwyr yn rhagorol yn 2006 gyda 100% o fyfyrwyr yn cyflawni graddau A-E yn eu pynciau lefel-A dewisedig, 84% yn cael graddau A i C a'r sgôr pwyntiau ar gyfartaledd yn 27 nodedig ar gyfer y myfyrwyr hynny a oedd yn astudio dau lefel-A neu fwy. Mae'r cyrsiau y mae myfyrwyr yn eu canlyn yn y chweched-dosbarth fel arfer wedi'u cyfateb yn dda i'w diddordebau a'u galluoedd. Mae disgwyliadau uchel iawn o'r holl fyfyrwyr chweched-dosbarth yn yr ysgol, ac mae gwaith tîm ac ymrwymiad i lwyddo yn tra-arglwyddiaethu ar fywyd chweched-dosbarth.
- 203 Yn gyffredinol, mae myfyrwyr chweched-dosbarth yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer llawer o fyfyrwyr ieuengach, trwy'r Cynllun Byti, ac maent yn aml yn cyflwyno delfrydau ymddwyn da ar gyfer y bobl ifainc hyn. Mae rhan fwyaf myfyrwyr B12 hefyd yn gweithredu fel swyddogion, a chynorthwyo tîm arweinyddiaeth yr ysgol gyda dyletswyddau goruchwyllo yn ystod amser cinio.
- 204 Mae llawer o nodweddion nodedig yn nhrefniant a rheolaeth y chweched-dosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys:
- rhaglenni recriwtio a chynghori effeithiol;
 - rhaglen sefydlu gynorthwyol a strwythuredig iawn ar gyfer myfyrwyr newydd;
 - cyfundrefn effeithiol ar gyfer monitro cynnydd a phresenoldeb myfyrwyr;
 - cynlluniau gweithredu/targedau tymor byr ar gyfer gwelliant os oes eu hangen;

- ystod dda iawn o weithgareddau allgyrsiol;
- llawer o gyfleoedd i fyfyrwyr gymryd cyfrifoldeb;
- nod a rennir i baratoi myfyrwyr ar gyfer dysgu gydol-oes y tu hwnt i ysgol; a hefyd
- cysylltiadau da gyda phrifysgolion a cholegau sy'n gymorth i fyfyrwyr ddewis y llwybrau cywir y tu hwnt i ysgol.

205 Mae'r holl benaethiaid cyfadrannau a phenaethiaid ysgol yn arwain a rheoli eu staff yn dda iawn oddi mewn i'w meysydd darpariaeth pwnc-benodol a/neu fugeiliol. Yn wir, mae gwaith tîm ac ymrwymiad i gyflawni'r safonau uchaf posibl o addysgu a dysgu yn nodwedd ragorol o'r holl dimau hyn. Yn neilltuol, mae'r holl benaethiaid cyfadrannau yn gweithio'n agos iawn gyda'r dirprwy-bennaeth i fonitro cyrhaeddiad myfyrwyr yn drylwyr ar bob cam a datblygu cynlluniau gweithredu pwnc er mwyn cynnal neu godi safonau cyrhaeddiad hyd yn oed ymhellach. Canlyniad hyn oll yw peth cynnydd rhagorol mewn rhai meysydd pwnc, tra bod eraill wedi cyflawni lefelau llwyddiant rhagorol ar bob cam.

Pa mor dda y mae llywodraethwyr yn diwallu eu cyfrifoldebau

- 206 Mae'r llywodraethwyr yn deall eu hysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda iawn. Maent yn chwarae rhan ganolog yn ei rheolaeth. Mae ystod briodol o bwyllgorau yn ffocysu ar faterion neilltuol yn yr ysgol, ac maent yn cadw'r corff llywodraethol yn hysbys iawn. Mae llywodraethwyr cyswllt gyda chyfrifoldebau neilltuol ar gyfer rhai agweddau neilltuol o'r ysgol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol bellach i drafodaethau. Galluogir y llywodraethwyr felly i wneud cyfraniad gwerthfawr i reolaeth strategol sydd wedi'i sylfaenu'n gadarn ac wedi'i ffocysu'n briodol.
- 207 Cedwir llywodraethwyr yn hysbys iawn gan adroddiadau rheolaidd a chynhwysfawr oddi wrth y pennaeth. Trafodir materion yn dreiddiol. Mae cofnodion da iawn yn darparu manylion digonol i alluogi aelodau newydd o bwyllgorau gyfrannu'n hyderus i gyfarfodydd. Mae ansawdd uchel y wybodaeth yn sicrhau fod penderfyniadau yn briodol ac effeithiol fel ei gilydd.
- 208 Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu holl ddyletswyddau statudol. Maent yn cadw rhieni'n hysbys iawn o'r hyn y mae'r ysgol yn ei gynnig a'i gyflawni trwy brospectws cynhwysfawr ac adroddiadau blynyddol manwl.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 209 Mae'r radd y gwnaethom ei dyfarnu yn cytuno â'r radd a gynigir gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

Pa mor effeithiol y monitrir ac yr arfarnir perfformiad yr ysgol

- 210 Gwnaethom ddyfarnu gradd 1 am fod yr ysgol wedi cynnal neu wella ar safonau uchel o ran cyflawniad ac addysgu dros gyfnod estynedig o amser. Mae'r fath

lwyddiant yn dystiolaeth o gamau neilltuol o effeithiol ar gyfer arfarnu a gwella ansawdd a safonau.

- 211 Mae adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol ac adroddiadau arfarnu-pynciau yn arfarniadau cywir a gonest o nodweddion da a rhagorol yr ysgol. Maent hefyd yn amlygu meysydd ar gyfer datblygu at y dyfodol, gan ddangos nad yw'r ysgol yn hunanfodlon ynglŷn â'i llwyddiant.
- 212 Mae gan aelodau o staff yr ysgol a'r corff llywodraethol wybodaeth gynhwysfawr a sicr y tu hwnt o gryfderau a chyfyngiadau'r sefydliad.
- 213 Mae'r dirprwy-bennaeth yn ymgymryd yn rheolaidd a phrydlon â dadansoddiadau manwl a thrylwyr iawn o holl ganlyniadau arholiadau a phroffion.
- 214 Mae'r gwaith hwn yn cymryd ystod eang o ddangosyddion priodol i ystyriaeth, meincnodau prydu-bwyd ysgol am ddim, tueddiadau hanesyddol ac adolygiadau o berfformiad myfyrwyr yn erbyn targedau ysgol a phwnc. Mae'r broses yn rhagorol o drylwyr a systematig, ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar weithdrefnau arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant.
- 215 Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol a gwylidwrus o gyfoeth o ddata arall, megis mesurau gwerth-ychwanegol, sy'n cymryd gwybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol i ystyriaeth. Ymgynghorir â rhieni a gofalwyr, rheolwyr a myfyrwyr yn rheolaidd fel bo'n briodol. Mae ymgynghoriadau llai ffurfiol hefyd yn ffurfio rhan o weithdrefnau arfarnu'r ysgol. Oherwydd y berthynas eithriadol sy'n bodoli yn yr ysgol, mae myfyrwyr yn fodlon cyfathrebu eu barn ynglŷn â chryfderau a diffygion yr ysgol yn agored a gonest. Yn eu tro, rhoddir ystyriaeth ddyladwy iddynt yn y prosesau gwneud-penderfyniadau.
- 216 Mae'r dirprwy-bennaeth a phenaethiaid cyfadrannau yn ymgymryd yn rheolaidd ag adolygiadau-pwnc trylwyr a heriol. Mae'r rhain yn gymorth i ddylanwadu ar y brif broses adolygu.
- 217 Gosodir targedau eglur a phriodol heriol ar gyfer unigolion ac adrannau pwnc yn sgil y sesiynau adolygu blynyddol. Mae penaethiaid cyfadrannau yn monitro cynnydd tuag at y targedau hyn yn rheolaidd.
- 218 Mae'r pennaeth a'r dirprwy-bennaeth yn monitro cynllunwyr myfyrwyr yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod myfyrwyr ac athrawon yn eu defnyddio'n briodol.
- 219 Mae egwyddorion hunan-arfarnu yn hysbys iawn ac wedi'u gweithredu gan yr holl staff, ac mae hunan-arfarniadau pwnc trylwyr a chynhwysfawr wedi'u cwblhau.

Effeithiolrwydd cynllunio ar gyfer gwelliant

- 220 Mae prosesau hunan-arfarnu'r ysgol yn effeithiol iawn, ac maent wedi bod yn gymorth i gynnal neu wella'r lefelau uchel o ran cyrhaeddiad myfyrwyr sy'n bodoli ar bob lefel. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gosod blaenoriaethau eglur a phriodol er mwyn hybu gwelliant.

221 Yn briodol, y prif feysydd ar gyfer datblygiad strategol ar gyfer 2006/07 yw:

- parhau i wella hunan-arfarnu;
- gwella amgylchedd yr ysgol (e.e. ysbwriel, gardd, ailgylchu);
- cynnal cyflawniadau academiaidd ar bob lefel;
- gwella ymhellach medrau sylfaenol ac allweddol myfyrwyr; a hefyd
- rhesymoli'r cwricwlwm er mwyn cyflawni gwerth am arian sydd hyd yn oed yn well a chyllideb fantoledig.

222 Mae'r datblygiadau a gynllunnir ar gyfer y gyllideb yn dangos nad yw'r ysgol yn hunanfodlon ynglŷn â'i llwyddiant cyfredol, ond ei bod yn ceisio cyflawni safonau sydd hyd yn oed yn uwch.

223 Mae deilliannau'r gweithdrefnau adolygu a'r dadansoddiadau data cysylltiedig yn cadarnhau, blwyddyn ar ôl blwyddyn mai canlyniadau gweithrediadau a gymerwyd er mwyn creu gwelliannau, yw cynnydd y gellir ei fesur yn eglur.

224 At ei gilydd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â rhan fwyaf y materion allweddol i'r ysgol weithredu arnynt a amlygwyd yn yr adroddiad ar yr arolygiad diwethaf. Er enghraifft:

- parthed safonau cyflawniad yn yr ysgol:
 - yn lefel-A, mae cyfran y myfyrwyr sy'n cyflawni 2 radd A i C neu fwy wedi codi o 45% i 84%; 2 radd A i E neu fwy wedi codi o 95% i 100%, ac mae'r sgôr pwyntiau ar gyfartaledd ar gyfer pob ymgeisydd wedi mynd i fyny o 17 i 27;
 - yn TGAU, mae'r gyfran sy'n cyflawni 5 gradd A* i C neu fwy wedi codi o 66% i 68%; mae'r gyfran sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc-craidd wedi codi o 49% i 50%; a hefyd
 - yng nghyfnod allweddol 3, mae'r gyfran sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc-craidd wedi codi o 70% i 78%;
- parthed medrau-allweddol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, bellach, mae cydlynnydd medrau-allweddol ysgol-gyfan sy'n rhan o'r tîm arweinyddiaeth. Mae wedi ymgymryd ag awdit o ddarpariaeth medrau-allweddol, ac mae'r ysgol ar fin gweithredu cynlluniau er mwyn cael achrediad i'r rhain ar draws yr holl gyfnodau;
- mae cynllunio hir dymor ar lefel ysgol ac adran wedi'i rwystro gan broblemau cyllidebol yr ysgol, ond bellach, mae'r ysgol yn mynd i'r afael â'r rhain;
- mae'r ysgol wedi gweithio gyda'r awdurdod unedol i wella'r adeiladau a'r ystafelloedd ar gyfer gwyddoniaeth, cerddoriaeth ac addysg gorfforol. Fodd bynnag, parthed yr olaf o'r rhain, erys angen eglur i'r awdurdod unedol ddarparu cyfleustra chwaraeon dan-do digonol i'r ysgol; a hefyd
- mae'r ysgol bellach yn diwallu gofynion statudol ar gyfer darparu addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched-dosbarth, ac ar gyfer darparu gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

225 Nid yw'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu yn cytuno â'r radd 2 a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu. Gwnaed y dyfarniad hwn oherwydd y gwerth rhagorol am arian y mae'r ysgol yn ei gyflawni ynghyd â nodweddion canmoladwy eraill.

Digonolrwydd, addasrwydd a'r defnydd a wneir o staffio, adnoddau dysgu ac adeiladau ac ystafelloedd

226 At ei gilydd, mae gan staffio'r ysgol nodweddion da a dim diffygion pwysig. Mae nifer y staff yn fwy na digonol er mwyn i'r ysgol weithredu'n effeithlon. Mae proffil y staff yn dangos fod gan tua 40% o'r athrawon fwy na deng mlynedd o brofiad neu lai, gan gynnwys un athro/awes sydd newydd gymhwyso. Gellir crynhoi'r prif nodweddion da fel a ganlyn:

- mae'r holl staff addysgu wedi cymhwyso'n briodol ac wedi'i hyfforddi i gwrdd â holl agweddau, pynciau ac anghenion ehangach y cwricwlwm;
- mae'r staff gweinyddol yn sicrhau fod y swyddfa, y dderbynfa, yr ardaloedd reprograffeg a'r llyfrgell yn gweithredu'n effeithlon;
- mae'r gofawlwr a'i gynorthwydd yn gyfrifol am gynnal-a-chadw o ddydd-i-ddydd ar y safle, ac maent yn cyfrannu'n effeithiol i reolweithiau dyddiol yr ysgol;
- mae cymorth technegydd yn dda mewn technoleg gwybodaeth, gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg;
- mae deg cynorthwydd cymorth-dysgu yn darparu cymorth ac anogaeth dda i nifer o fyfyrwyr sydd â phroblemau dysgu ac ymddygiad; maent yn gweithio'n effeithiol gyda'r holl athrawon pwnc a'r cydlynnydd ar gyfer anghenion addysgol arbennig; a hefyd
- y cynorthwydd cyflenwi, sy'n goruchwyllo dosbarthiadau ar gyfer staff sy'n absennol. Pan nad oes angen hyn, fe'i lleolir yn effeithlon fel cymorth ychwanegol i fyfyrwyr mewn gwersi.

227 Er mwyn darparu ar gyfer gofynion y cwricwlwm, mae'r ysgol yn cyflogi nifer cymharol uchel o athrawon rhan-amser, ac mae'n rhaid i lawer o athrawon addysgu mwy nag un pwnc. Mae eu gwaith o'r fath safon uchel ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth.

228 Mae ansawdd a maint yr adnoddau dysgu ar gyfer cyfnodau allweddol 3 a 4 yn ddigonol gyda nodweddion da a dim diffygion pwysig. Mae'r nodweddion da yn cynnwys:

- ystod ddigonol eang o werslyfrau ac offer yn rhan fwyaf y pynciau;
- ystod eang a chreadigol o ddefnyddiau pwnc a ddatblygwyd ac a gynhyrchwyd gan staff yr ysgol;
- darpariaeth offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer addysgu gwersi technoleg gwybodaeth arwahanol, ac at ddefnydd holl feysydd pwnc y cwricwlwm;

- y banc cyfrifiaduron yn nylunio a thechnoleg a ddefnyddir ar gyfer rheoli, a dylunio a chynhyrchu â chymorth cyfrifiadur;
 - nifer gynyddol o fyrddau-gwyn rhyngweithiol a thafunyddion digidol a ddefnyddir er mwyn mwyhau addysgu yn yr ystafell ddosbarth;
 - y defnydd da iawn o adnoddau y tu allan i'r ysgol ar gyfer cyfoethogi'r cwricwlwm, gan gynnwys ymweliadau ag amgueddfeydd, orielau celf a theatrau, a theithiau dramor; ac
 - ystod eang o siaradwyr sy'n ymweld er mwyn mwyhau profiadau dysgu myfyrwyr.
- 229 Mae gan y llyfrgell stoc ddigonol o lyfrau ond dim cyfleusterau cyfrifiadur, ac mae'n fach o ystyried nifer y myfyrwyr sydd ar y gofrestr. Er hynny, fe'i defnyddir yn dda gan fyfyrwyr cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, amser cinio yn bennaf ac adeg egwyl, ac mae'n annog darllen, dysgu annibynnol ac ymchwil.
- 230 Diffyg mewn adnoddau yw absenoldeb torrwr-laser mewn dylunio a thechnoleg, sy'n cyfyngu ar y profiadau sydd ar gael i fyfyrwyr.
- 231 Ar gyfer y chweched-dosbarth, yn y chwe phwnc yr arolygwyd, mae ystod a darpariaeth dda o werslyfrau ac offer. Yn ystod amserau gwersi, pan nad oes unrhyw ddsbarthiadau, mae myfyrwyr yn defnyddio'r cyfrifiaduron yn eu hystafell astudio ac yn yr ystafelloedd cyfrifiaduron ar gyfer dysgu ac ymchwil annibynnol.
- 232 Mae gan yr adeiladau a'r ystafelloedd nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion, ond prin yn ddigonol ydynt ar gyfer nifer y myfyrwyr sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd. Dim ond o'r braidd y maent yn diwallu anghenion bugeiliol ac academaidd y cwricwlwm, ac mae ganddynt y nodweddion da canlynol:
- mae rhan fwyaf yr ystafelloedd yn addas i'r diben, ac maent yn ddigon mawr i ddarparu'n dda ar gyfer dosbarthiadau o bob maint;
 - mae ystafelloedd dosbarth a choridorau yn cynnwys llawer o arddangosfeydd lliwgar a deniadol o waith myfyrwyr, ac maent yn darparu amgylcheddau dysgu ysgogol ac effeithiol;
 - toiledau ac ystafelloedd newid sydd wedi'u hadnewyddu ar gyfer myfyrwyr;
 - cyfleusterau da y tu allan ar gyfer addysg gorfforol; a hefyd
 - adeiladau a thiriogaethau'r ysgol a gedwir yn lân ac yn rhydd o ysbwriel gan amlaf.
- 233 Yn gyffredinol, mae golwg flinedig, wedi'i gor-ddefnyddio ar yr ysgol, gyda rhannau o'r tu allan mewn angen dybryd o ran trwsio, cynnal-a-chadw, ac addurno.
- 234 Gellir dod o hyd i'r prif ddiffygion yn yr adeiladau a'r ystafelloedd yn y cyfleusterau dan-do gwael ar gyfer addysg gorfforol. Mae neuadd yr ysgol yn gorfod gwasanaethu rolau amrywiol fel campfa, neuadd chwaraeon, stiwdio ddrama ac ystafell ffitrwydd. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, oherwydd ymroddiad hael athrawon, mae'r ysgol yn cyflawni rhai llwyddiannau rhagorol.
- 235 Mae diffygion eraill yn yr adeiladau a'r ystafelloedd yn cynnwys:
- nifer fechan o ystafelloedd nad ydynt yn gallu darparu'n iawn ar gyfer dosbarthiadau mawrion a amserlennwyd; a hefyd
 - y cyfleusterau cyfyng mewn gwyddoniaeth a cherddoriaeth.

236 Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd ar gyfer y chweched-dosbarth yn ddigonol ar gyfer anghenion academaidd a bugeiliol y cwricwlwm fel ei gilydd. Er bod myfyrwyr yn gorfod defnyddio'r ffreutur fel ystafell gyffredin, nid yw hyn yn achosi unrhyw broblemau difrifol. Defnyddir eu hystafell-astudio fach gyda banc o chwe chyfrifiadur yn dda ar gyfer dysgu annibynnol, ymchwil ar y rhyngwyd a gwella cyflwyniad eu gwaith.

Pa mor effeithlon y rheolir adnoddau er mwyn cyflawni gwerth am arian

237 At ei gilydd, mae rheolaeth adnoddau'r ysgol er mwyn cyflawni gwerth am arian yn rhagorol.

238 Mae rheolaeth yr holl staff a'r defnydd a wneir ohonynt yn dda iawn. Yn gynwysedig yn y nodweddion da, mae'r canlynol:

- y defnydd a wneir o staff, sy'n gwneud defnydd da ac effeithiol o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad; a hefyd
- gwaith effeithiol y cynorthwydd cyflenwi a'r cynorthwywyr cymorth-dysgu.

239 Nodwedd ragorol yw datblygiad proffesiynol yr holl staff, y staff addysgu a'r staff nad ydynt yn addysgu. Cysylltir hyfforddiant i flaenoriaethau a amlygir mewn gweithgareddau rheoli-perfformiad, cynllun datblygu'r ysgol ac anghenion adrannau ac unigolion. Mae wedi'i gydlynu'n dda, ac arfarnir yn ofalus y cyrsiau y mae staff yn eu mynychu, ac fe'u defnyddir er lles yr ysgol.

240 Mae'r rhaglenni a'r gefnogaeth i athrawon sydd newydd gymhwyso, ar gyfer datblygiad proffesiynol estynedig athrawon sydd newydd gymhwyso, ac ar gyfer myfyrwyr hyfforddiant cychwynnol yn drylwyr, yn gynhwysfawr a chanmoladwy.

241 Mae'r ysgol wedi gweithredu ei strategaeth ar gyfer y cytundeb llwyth gwaith, ac mae wedi gwneud darpariaeth briodol yn yr amserlen ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

242 Mae'r pennaeth, ar ôl ymgynghori â'r holl randdeiliaid, wedi gweithredu strwythur yr ysgol ar gyfer y cyfrifoldebau addysgu a dysgu newydd.

243 Mae'r pennaeth, dirprwy-bennaeth, y swyddog cyllid ac is-bwyllgor cyllid y corff yn rheoli'r gyllideb sydd ar gael yn effeithiol.

244 Mae'r nodweddion da canlynol yn amlwg:

- mae'r is-bwyllgor cyllid yn cwrdd yn rheolaidd, ac mae'n derbyn adroddiadau i'r funud a manwl oddi wrth y pennaeth;
- mae penderfyniadau ariannol wedi'u ffocysu'n dda ar anghenion cwricwlaidd a'r blaenoriaethau addysgol a ganfyddir yng nghynllun datblygu'r ysgol;
- mae'r ysgol yn mynd ar ôl yr holl grantiau a nawdd sydd ar gael; a hefyd
- mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad diwethaf yr archwilwyr.

245 Mae'r swyddog cyllid yn gyfrifol am weinyddu cyllid yr ysgol o ddydd-i-ddydd yn hyfedrus. Monitrir gwariant yr ysgol yn agos a gofalus.

246 Mae'r ysgol yn adolygu a defnyddio ei hadnoddau a'i chyllid yn effeithiol a hyfedrus iawn. Mae'n darparu gwerth rhagorol am arian oherwydd y canlynol:

- safonau cyflawniad myfyrwyr sydd wedi gwella ac sy'n da i wella;
- ansawdd da iawn eu haddysgu;
- gofal a chymorth o'r radd flaenaf ar gyfer ei myfyrwyr;
- datblygiad cynlluniedig eangfrydig y staff, y staff addysgu a'r staff nad ydynt yn addysgu; ac
- ansawdd effeithiol iawn ei rheolaeth.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Saesneg

Cyfnod allweddol 3: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Cyfnod allweddol 4: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Ôl-16: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

Cyfnod allweddol 3

- 247 Dros y blynyddoedd diwethaf, mewn asesiadau diwedd cyfnod allweddol, mae myfyrwyr wedi perfformio'n gyson dda, gan gyflawni canlyniadau gwell na'r rhai a gafwyd mewn mwy na thri-chwarter o ysgolion cyffelyb.
- 248 Mae myfyrwyr yn ymwneud ag ystod eang o ysgrifennu, ac maent yn deall gofynion ieithyddol gwahanol gynulleidfaoedd, pwrpasau a ffurfiau. Mae ysgrifennu wedi'i strwythuro'n effeithiol, ac mae defnydd o eirfa ac ymadroddion priodol.
- 249 Mae cydweithio rhagorol mewn parau a grwpiau bach at ystod o ddibenion. Yn y grwpiau hyn, mae myfyrwyr yn dadansoddi testunau, yn datrys problemau, cynllunio ymatebion a siarad yn erbyn meini prawf y gwyddys. Mae myfyrwyr yn gwneud defnydd da iawn a phriodol o dermau technegol.
- 250 Mae ansawdd cyflwyniadau paratoedig myfyrwyr i'r dosbarth yn rhagorol. Mae myfyrwyr yn ymchwilio'n dda iawn a chyfathrebu'n hyderus i'r gynulleidfa gan ddefnyddio goslef a geirfa briodol.

Ôl-16

- 251 Mae myfyrwyr yn siarad yn rhagorol o dda mewn gwaith pâr a grŵp. Maent yn hyderus a huawdl.
- 252 Maent yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn hynod o hyfedrus i ymchwilio i gefndir cyd-destunol i lenyddiaeth, a rhannu canfyddiadau yn effeithiol gyda'u cyfoedion.
- 253 Wrth astudio drama, mae myfyrwyr yn cynnig awgrymiadau rhagorol ynglŷn â dilyniant, cymeriadau a ffactorau eraill gan gyfiawnhau eu safbwyntiau'n eithriadol o dda.
- 254 Yn eu gwaith ysgrifenedig, mae myfyrwyr yn ymgymryd â synthesisau gwych o wybodaeth, yn defnyddio dyfyniadau priodol i gyfiawnhau safbwyntiau a defnyddio dyfeisiadau llenyddol fel metaffor yn effeithiol.
- 255 Mae myfyrwyr yn arddangos annibyniaeth ragorol yn eu dulliau o fynd i'r afael â dysgu. Maent yn aml yn cymryd rôl yr athro/awes yn llwyddiannus wrth iddynt gyflwyno gwybodaeth a ymchwiliwyd i'w cyfoedion.

Nodweddion da

Cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4

- 256 Mae myfyrwyr yn cydweithredu'n fodlon mewn gwaith grŵp a mynegi eu syniadau'n rhugl. Maent yn siarad yn hyderus mewn ystod o weithgareddau, ac maent yn dangos ymwybyddiaeth ynglŷn â sut i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, yn enwedig gwaith ffeithiol yng nghyfnod allweddol 3.
- 257 Mae ganddynt i gyd fedrau gwrando da, ac maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar eu hathrawon.
- 258 Maent i gyd yn ysgrifennu'n briodol at ystod o ddibenion, gan arddangos gafael briodol ar Saesneg Safonol, ac mae llawer yn ysgrifennu naratifau estynedig a mwyhau eu gwaith yn effeithiol gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- 259 Mae myfyrwyr yn ymgyfrannu'n fedrus mewn gweithgareddau seiliedig-ar-ddrama er mwyn archwilio cymeriadau mewn testunau.
- 260 Maent yn darllen yn uchel â chywirdeb, ac mae'r rhan fwyaf yn darllen yn llithrig. Mae'r rhan fwyaf yn darllen â mynegiant. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o ystod eang o destunau llenyddol, ffeithiol a chyfryngol. Maent yn dehongli lluniau, hysbysebion ac iaith gorfforol yn dda. Maent yn cyfeirio at destunau er mwyn cefnogi syniadau a barn.

ÔI-16

- 261 Mae myfyrwyr yn gwneud cynnydd da, ac mae nifer sylweddol ohonynt yn ysgrifennu traethodau beirniadol a strwythurwyd yn dda..
- 262 Maent i gyd yn cadw nodiadau trylwyr o amrywiaeth o ffynonellau mewn plygellau a drefnwyd yn dda.

Diffygion

Cyfnod allweddol 4

- 263 Nid yw bechgyn yn cyflawni cystal â merched.
- 264 Nid yw ychydig o fyfyrwyr yn cynnal tempo er mwyn cyflawni gwaith ysgrifenedig sylweddol mewn gwersi.

Cymraeg ail-iaith

Cyfnod allweddol 3: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Cyfnod allweddol 4: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

ÔI-16: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion rhagorol

Cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4

- 265 Mae safonau mewn siarad yn rhagorol. Mae adalw parod myfyrwyr o iaith a ddysgwyd eisoes yn caniatáu iddynt ddefnyddio geirfa newydd oddi mewn i batrymau

brawddegau cyfarwydd. Yn ystod ymarferion adolygu ar ddechrau gwersi, gall myfyrwyr gynnal sgwrs estynedig ar y pryd.

- 266 Mae myfyrwyr yn gweithio'n rhagorol o dda mewn parau i greu deialog, ac maent yn ei berfformio'n hyderus o flaen eu cyfoedion. Am fod myfyrwyr yn sicr yn eu defnydd o ystod o batrymau iaith, erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, maent yn gallu addasu iaith er mwyn symud y drafodaeth ymlaen ar dempo bywiog. Maent yn creu cydberthynas dda mewn trafodaeth ddsbarth oherwydd digymhellrwydd eu hymatebion. Mae eu bodlonrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol y tu allan i ymarferion ffurfiol yn gymorth iddynt wella eu llithrigrwydd.
- 267 Mae medrau gwrando yn rhagorol. Mae myfyrwyr yn gwbl gysurus â'r disgwyliadau uchel a osodir mewn gwersi a defnydd afieithus eu hathrawon o'r iaith Gymraeg. Oherwydd eu dealltwriaeth drylwyr o'r iaith, maent yn ymateb yn hyderus i'r holl weithgareddau a gyflwynir i gysylltu medrau iaith.
- 268 Mae'r gwerth a ychwanegir i addysg myfyrwyr dros y ddau gyfnod allweddol yn rhagorol. Mae'r holl fyfyrwyr ail-iaith yn dilyn y cwrs TGAU llawn yng nghyfnod allweddol 4. Yn 2006, cafodd 80% o'r myfyrwyr radd A* i C gyda 49% yn cael gradd A* neu A.
- 269 Mae myfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd rhagorol dros y ddau gyfnod allweddol. Maent yn sefyll arholiadau TGAU yng nghyfnod allweddol 4, ac maent yn mynd ymlaen i astudio ar lefel UA ôl-16.

Nodweddion da

Cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4

- 270 Mae safonau mewn darllen yn dda. Mae myfyrwyr yn darllen ystod o ddefnyddiau er mwyn cael at wybodaeth. Maent yn darllen yn uchel yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 4, mae myfyrwyr yn cymharu erthyglau y maent yn eu darllen i safon dda.
- 271 Mae safonau mewn ysgrifennu'n dda. O B7, mae myfyrwyr yn ysgrifennu ystod o ddogfennau estynedig at ddibenion gwahanol. Maent yn arddangos gafael gynyddol ar ramadeg, sillafu ac amserau'r ferf. Erbyn cyfnod allweddol 4, mae myfyrwyr yn gallu ysgrifennu heb baratoi ymlaen-llaw na chyfeirio at daflen waith. Maent yn mynegi barn yn gywir ac effeithiol. Maent yn defnyddio ystod o dechnegau llenyddol i fwyhau eu gwaith.
- 272 Mae myfyrwyr yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn hyfedrus er mwyn cynhyrchu gwaith megis traethodau, adroddiadau a phamffledi.

Ôl-16

- 273 Mae myfyrwyr yn gallu cynnal sgysiau rhugl gydag ymwelwyr, cyfoedion ac athrawon. Mae'r cyflawnwyr uchaf yn gallu siarad yr iaith yn barhaus ym mhob sefyllfa gydol pob gwrs. Maent yn cynnal sgysiau diddorol bywiog.
- 274 Wrth drafod testunau gosod, mae myfyrwyr yn mynegi barn yn effeithiol ar cynllun, themâu a chymeriadau. Maent yn gwneud cymariaethau perthnasol gyda thestunau eraill.
- 275 Maent yn gweithio'n effeithiol iawn mewn parau i drafod rheolau gramadeg a darparu esiamplau o'u defnydd mewn cyd-destunau gwahanol.

276 Mae myfyrwyr yn strwythuro eu gwaith ysgrifenedig yn dda. Maent yn cynhyrchu ystod eang o ddogfennau ysgrifenedig estynedig. Maent yn dangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa a phwrpas. Mae'r cyflawnwyr uchaf yn ysgrifennu â mynegiant a chywirdeb.

Diffygion

277 Mae gwaith gwerthfawrogi llenyddiaeth ysgrifenyddol llai hyderus yn ddisgrifiadol yn hytrach na dadansoddol.

278 Mae enghreifftiau o wallau sylfaenol mewn gwaith ysgrifenedig.

Gwyddoniaeth

Cyfnod allweddol 3: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Cyfnod allweddol 4: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Ôl-16: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion rhagorol

Cyfnod allweddol 3

279 Dros y tair blynedd diwethaf, mae canran y myfyrwyr sy'n cyrraedd lefel 5 ac uwch wedi bod yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn asesiadau cenedlaethol cyfnod allweddol 3.

280 Mae llawer o fyfyrwyr ar draws yr ystod allu yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ystod eang o dopigau.

281 Mae ganddynt atgof sicr o gysyniadau allweddol, ac maent yn gallu eu cymhwyso i ddatrys ystod o broblemau gwyddonol.

Nodweddion da

Cyfnod allweddol 3

282 Mae llawer o fyfyrwyr yn defnyddio termau gwyddonol yn gywir ar gyfer egluro cysyniadau ac yn eu hadroddiadau ymarferol.

283 Mae rhan fwyaf y myfyrwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o egwyddorion gwyddonol yn gysylltiedig â meysydd megis bwyta'n iach, cynhesu byd-eang a chadwraeth ynni, mewn cymwysiadau a ddefnyddir yn feunyddiol.

284 Mae myfyrwyr yn datblygu medrau ymarferol da. Maent yn gweithio'n ddiogel, yn cofnodi a dadansoddi mesuriadau yn briodol.

285 Mae'r myfyrwyr ag anghenion dysgu arbennig bron i gyd yn gwneud cynnydd da.

Cyfnod allweddol 4

286 Mae gan ymhell dros hanner y myfyrwyr ddealltwriaeth gadarn o'r egwyddorion mwy cymhleth y maent yn eu hastudio.

287 Mae ganddynt atgof da o waith blaenorol, ac maent yn gallu cymhwyso eu gwybodaeth i ystod o dasgau a chymwysiadau gwyddoniaeth.

- 288 Mae rhan fwyaf y myfyrwyr wedi datblygu dealltwriaeth dda o'r modd y mae datblygiadau gwyddonol wedi cyfrannu at ddatblygiad diwydiant a datblygiad cynaliadwy, a sut y maent wedi dylanwadu ar yr economi.
- 289 Mae tua hanner y myfyrwyr yn cwblhau gwaith ymchwiliol i safon dda. Maent yn dadansoddi eu canlyniadau yn drylwyr, gan ddefnyddio graffiau a dulliau rhifiadol priodol, ac maent yn gwneud sylwadau beirniadol ar y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd ac awgrymu dulliau ynglŷn â sut i wella'r ymchwiliad.
- 290 Yn yr achosion hyn, mae myfyrwyr yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wyddonol i gyfarwyddo eu cynllunio a gwneud gwaith rhagarweiniol priodol.
- 291 Mae rhan fwyaf y myfyrwyr yn gwneud arsylwadau a mesuriadau systematig.
- 292 Mae myfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da at-ei-gilydd.

ÔI-16

- 293 Mae rhan fwyaf y myfyrwyr yn gwneud cynnydd da.
- 294 Yn gyffredinol, mae gan fyfyrwyr ddealltwriaeth dda a pharod o waith blaenorol ac atgof parod o lawer o gysyniadau ac egwyddorion.
- 295 Mae rhan fwyaf y myfyrwyr yn cyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda, ac maent yn gwneud defnydd priodol o derminoleg wyddonol mewn disgrifiadau ac esboniadau.
- 296 Mewn gwaith ymarferol, mae myfyrwyr yn gyffredinol yn dangos dealltwriaeth dda o'r gwaith, ac ymgymryd â gweithdrefnau yn ddiogel a systematig.
- 297 Mae mwyafrif y myfyrwyr yn gallu defnyddio gwybodaeth a data o ffynonellau eilaidd ac arsylwadau ymarferol, er mwyn canfod patrymau ac egluro ymddygiad gwyddonol.

Diffygion

Cyfnod allweddol 3

- 298 Nid yw gallu myfyrwyr i gynnal dull ymchwiliol o fynd i'r afael â gwaith ymarferol wedi'i ddatblygu'n ddigon da.

Cyfnod allweddol 4

- 299 Nid oes gan leiafrif o fyfyrwyr o allu cymedrol ac is ddealltwriaeth sicr o nifer o gysyniadau gwyddonol. Maent yn cael anhawster wrth eu cymhwyso i ystod o broblemau gwyddonol.
- 300 Nid yw nifer sylweddol o fyfyrwyr yn cwblhau aseiniadau gwaith-cwrs i safon a fydd yn caniatáu mynediad iddynt i'r marciau uwch yn yr holl feysydd medrau.

ÔI-16

- 301 Ansicr yw atgof a dealltwriaeth ychydig o fyfyrwyr o waith cyfredol a blaenorol.
- 302 Maent yn cael peth anhawster wrth gymhwyso rhai o'r egwyddorion mwy cymhleth mewn problemau gwyddonol.

Technoleg gwybodaeth

Cyfnod allweddol 3: Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Cyfnod allweddol 4: Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Nodweddion da

Cyfnod allweddol 3

- 303 Mae myfyrwyr yn B7 yn rheoli cyfrifiaduron yn effeithiol. Maent yn cynnal gweithrediadau sylfaenol cyfrifiadur megis mewngofnodi, galw i fyny a chadw eu gwaith yn effeithiol a chael at gymwysiadau priodol, a'r Rhyngwyd.
- 304 Mae cyfathrebu medrau gwybodaeth wedi'i ddatblygu'n dda. Mae myfyrwyr yn gallu cyflwyno'u gwaith yn dda. Maent yn newid a threfnu ffontiau a gosodiadau, a chyfuno testun a delweddau mewn cyfuniadau priodol wrth ddatrys problemau dylunio.
- 305 Mae myfyrwyr yn defnyddio'r Rhyngwyd yn dda at ddibenion ymchwil, ac maent yn lawrlwytho testun a delweddau'n aml i'w cynnwys yn eu dyluniadau a'u cyflwyniadau cyfrifiadurol.
- 306 Mae myfyrwyr yn gallu cydosod taenlenni, deall eu diben, ymgymryd â modelu syml gan ddefnyddio fformwlâu, ac arddangos eu canlyniadau mewn ffurf graffigol.

Cyfnod allweddol 4

- 307 Mae myfyrwyr yn datblygu ystod briodol o fedrau technoleg gwybodaeth yng nghydran gwaith-cwrs B10 cwrs TGAU. Mae gwaith y myfyrwyr bron i gyd yn arddangos tystiolaeth o fedrau cyfathrebu-gwybodaeth da ar amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaedd.
- 308 Mae myfyrwyr yn B11 yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith prosiect. Mae dros hanner ohonynt yn defnyddio cyd-destunau bywyd go-iawn fel sail ar gyfer gwaith prosiect, sy'n cynorthwyo datrys-problemau a mwyhau ymchwil ac arfarnu. Mae myfyrwyr yn gwneud defnydd da o feddalwedd cyhoeddi bwrdd-gwaith a chyflwyno i arddangos ac egluro'u syniadau.
- 309 Ym mron pob prosiect, mae medrau ymchwil, dadansoddi a datrys problemau wedi'u datblygu'n dda. Mae myfyrwyr yn gwneud defnydd priodol o'r Rhyngwyd a ffynonellau gwybodaeth eraill i gynorthwyo eu hymchwil.
- 310 Mae gan y myfyrwyr bron i gyd ddealltwriaeth dda o theori.

Diffygion

Cyfnod allweddol 3

- 311 Annigonol yw dealltwriaeth myfyrwyr o'r defnydd o gronfeydd data, eu hadeiladu a'u holi.
- 312 Nid yw dealltwriaeth na'r defnydd o daenlenni gan y myfyrwyr bron i gyd yn ymestyn cyn belled â medrau modelu lefel uwch megis fformwlâu 'os'.

313 Nid yw myfyrwyr yn trafod yn ddigon aml materion cymdeithasol, economaidd, ethegol a moesol sy'n ymwneud â'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Cyfnod allweddol 4

314 Dim ond gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyng o daenlenni a chronfeydd data sydd gan fyfyrwyr o allu canolog i is er mwyn eu galluogi i'w defnyddio'n llawn mewn gwaith prosiect.

315 Nid yw myfyrwyr yn defnyddio gwaith seiliedig-ar-bapur yn ddigon da at ddibenion datblygu eu hymchwil, dylunio a chynllunio.

Hanes

Cyfnod allweddol 3: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 4: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Ôl-16: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

Ôl-16

316 Mae gan y nifer fawr o fyfyrwyr sy'n dewis astudio hanes yn B12 a B13 lefelau da iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o gymhlethdodau polisi cymdeithasol, crefyddol a hiliol Hitler o 1933 i 1945 a ffawd newidiol plaid y Natsïaid. Maent yn cyflawni gafael ragorol o'r amgylchiadau o gwmpas esgyniad Hitler i rym. Mae eu gallu i adeiladu dadleuon llafar ac ysgrifenedig rhesymedig a chytbwys, yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol hefyd yn rhagorol. Maent yn llwyddiannus iawn wrth ganfod ac archwilio amrywiaeth o ffactorau cymhleth wrth fynd i'r afael â phroblemau hanesyddol heriol.

317 Mae myfyrwyr yn cyflawni safonau rhagorol wrth arfarnu a dadansoddi ffynonellau tystiolaeth. Mae ganddynt allu da iawn i asesu arwyddocâd priodoleddau'r ffynonellau hyn, gan ddefnyddio eu dealltwriaeth i ddod at ganlyniadau soffistigedig ac argyhoeddiadol.

318 Mae gan fyfyrwyr yn B12 a B13 fel ei gilydd fedrau da wrth ddatblygu dadleuon llafar. Mae cyfraniadau rhugl a huawdl i drafodaethau yn arddangos aeddfedrwydd a hyder cynyddol; maent yn gynyddol abl i "feddwl ar eu traed".

319 Mae myfyrwyr yn dangos gallu rhagorol i syntheseiddio barn y prif haneswyr proffesiynol sydd ag arbenigedd yn hanes yr Almaen adeg Hitler. Mae ganddynt afael sicr ar y gwahaniaeth rhwng y dehongliadau traddodiadol, Marcsaidd ac adolygiadol o allu Hitler i ddenu cefnogaeth i'w bolisiau o wahanol grwpiau cymdeithasol ac economaidd yn yr Almaen. Maent yn defnyddio eu medrau dadansoddol ac arfarnol yn effeithiol iawn i egluro'r gwahaniaethau hyn. Mae eu gafael ar hanesyddiaeth yn rhagorol.

320 Mae gan fyfyrwyr B12 a B13 allu da iawn i ddefnyddio eu gwybodaeth a'r dystiolaeth o ffynonellau i adeiladu dadleuon gwrthwynebol a chytbwys a ddadleuir yn dda yn eu gwaith ysgrifenedig. Mae dyfnder eu dadansoddiad mewn traethodau ac arfarniad o ffynhonnell yn rhagorol.

321 Mae myfyrwyr yn arddangos dull aeddfed iawn o fynd i'r afael â datblygu eu medrau dysgu annibynnol newydd, gan gymryd cyfrifoldeb personol am ymestyn eu gweithgareddau ymchwil, darllen yn eang, a chymryd balchder wrth sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau uchaf posibl yn ansawdd eu haddysgu.

Nodweddion da

Cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4

322 Mae gan fyfyrwyr lefelau da o wybodaeth a dealltwriaeth, ac maent yn adalw eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn i dopigau newydd a phroblemau hanesyddol yn hyderus.

323 Mae myfyrwyr yn dangos gallu da i ganfod ac egluro achosion newid dros amser, ac olrhain y canlyniadau perthnasol.

324 Mae gan fyfyrwyr fedrau llafar a ddatblygwyd yn dda, ac mae'r rhan fwyaf yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau dosbarth. Maent yn siarad yn rhugl a huawdl, ac maent yn defnyddio ystod eang o eirfa bwnc-benodol yn gywir ac yn y cyd-destun cywir.

325 Mae gan fyfyrwyr ymwybyddiaeth dda o gronoleg. Maent yn gallu echdynnu gwybodaeth gywir a pherthnasol o ystod eang o dystiolaeth. Maent yn hyderus wrth wneud cysylltiadau ystyrlon rhwng y ffynonellau hyn a'u gwybodaeth gefndirol eu hunain o dopig.

326 Mae myfyrwyr yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud cynnydd da wrth brofi ffynonellau tystiolaeth am ddibynadwyaeth, defnyddioldeb a thueddbwys. Maent yn llwyddiannus wrth adnabod propaganda ac egluro ei weithrediad a'i arwyddocâd wrth iddynt ystyried problemau hanesyddol.

327 Mae rhan fwyaf y myfyrwyr yn arfarnu ffynonellau yn effeithiol a'u defnyddio'n ofalus i gynhyrchu dadleuon llafar ac ysgrifenedig sydd wedi'u cydbwysu'n dda.

328 Mae rhan fwyaf y myfyrwyr yn cyflawni safonau da wrth ddethol, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth yn eu hymateb i ystod eang o dasgau ysgrifenedig a sialensiau a gyflwynir iddynt.

329 Mae gwybodaeth myfyrwyr o hanes a diwylliant Cymru wedi'i ddatblygu'n dda a mwyheir hon gan y defnydd effeithiol iawn o'r amgylchedd lleol unigryw y maent yn byw ynddo.

330 Mae myfyrwyr yn llwyddiannus wrth gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o feysydd cwricwlaidd eraill, megis llenyddiaeth, i ymestyn eu medrau ymchwil a dysgu annibynnol. At ei gilydd, mae medrau datrys-problemau wedi'u datblygu'n dda.

Cyfnod allweddol 3

331 O B7 ymlaen, mae myfyrwyr yn mabwysiadu dulliau ymchwiliol da. Maent yn defnyddio ffynonellau tystiolaeth yn effeithiol i gymharu a gwrthgyferbynnu gwahanol ddehongliadau o ddigwyddiadau a sefydliadau hanesyddol. O ganlyniad, maent yn llwyddiannus wrth ddarparu rhesymau argyhoeddiadol am broses newid dros amser. Mae dulliau da ac effeithiol o fynd i'r afael ag ymholi hanesyddol.

332 Erbyn B9, mae myfyrwyr yn hyderus wrth ganfod y gwahaniaethau rhwng achosion hirdymor a byrdymor newid hanesyddol.

Cyfnod allweddol 4

333 Mae myfyrwyr yn arddangos aeddfedrwydd cynyddol yn nyfnder eu hymateb i broblemau hanesyddol heriol, megis y gwahaniaethau a gafwyd yn yr ymgyrch dros hawliau menywod i bleidleisio yn gynnar yn yr 20fed ganrif. Maent wedi'u ffocysu yn gynyddol well ar ddarparu esboniadau boddhaol am wahanol gymelliadau ac agweddau pobl yn y gorffennol trwy ofyn cwestiynau mwy cymhleth o'r ffynonellau tystiolaeth.

334 Yn gyffredinol, mae gwaith ysgrifenedig rhan fwyaf y myfyrwyr wedi'u drefnu a'u gyflwyno'n dda. Mae medrau ysgrifennu estynedig yn dangos cynnydd da erbyn diwedd CA4.

Diffygion

Cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4

335 Nid yw lleiafrif bach o fyfyrwyr yn y ddau gyfnod allweddol yn ymateb yn ddigon dwfn a manwl yn eu gwaith ysgrifenedig er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael yn llawn â'r cwestiwn a osodir iddynt.

336 Mae safonau amrywiol yn ansawdd gwaith ysgrifenedig lleiafrif o fyfyrwyr. Nid yw eu cyflwyniad, sillafu nac atalnodi wedi'u datblygu'n llawn. Mewn ychydig o achosion, mae tystiolaeth o waith ysgrifenedig anghyflawn.

Addysg gorfforol

Cyfnod allweddol 3: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 4: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Ôl-16: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

Cyfnod allweddol 4

337 Mae myfyrwyr yn arddangos safonau da iawn wrth gynllunio, perfformio ac arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. Mae hyn y neilltuol o amlwg mewn gweithgareddau hunanamddiffyn, pêl-fasged a gwaith arholiad TGAU. Mae gwaith llawer o fyfyrwyr yn rhagorol.

338 Mae ymgyfraniad myfyrwyr mewn gweithgareddau corfforol sy'n datblygu cryfder, dygnwch a hyblygrwydd yn dda iawn. Mae unigolion yn gallu cynllunio, ymgymryd â, ac arfarnu rhaglenni ffitrwydd ac arwain sesiynau cynhesu a chlaearu. Mae myfyrwyr yn arddangos dealltwriaeth dda iawn o ran sut y datblygir cydrannau ffitrwydd corfforol a sut y mae'r rhain yn cydweddu â dull byw bywiog ac iach.

339 Mae myfyrwyr yn arddangos safonau da iawn wrth ddadansoddi a rheoli risg. Maent yn ymwybodol o'r hyn yw arfer diogel a chymeradwy, a'r hyn sydd ei angen iddynt ei wneud ar gyfer eu diogelwch eu hunain a diogelwch eraill.

- 340 Mae gallu myfyrwyr i asesu eu perfformiad eu hunain yn feirniadol, ac yna gosod targedau heriol i'w hunain, yn dda iawn.
- 341 Mae myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau TGAU yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o gynnwys pwnc, er enghraifft yng nghydran anatomeg a ffisioleg. Mae myfyrwyr yn deall yn llawn yr anghenraid am gael a chynnal system gardiofasgwlaidd iach. Dëellir yn dda cysyniadau bwyta'n iach, rheoli gordewdra a phwysigrwydd ymarfer wrth gynnal corff iach.

Ôl-16

- 342 Mae merched yn cynhyrchu gwaith dawns o safon uchel iawn. Mae symudiad llifol a gosgeiddig, cywirdeb techneg a chyfansoddiad gwreiddiol, sy'n aml yn cynnwys y defnydd o offer ychwanegol, yn nodweddu eu gwaith.
- 343 Mae myfyrwyr yn arddangos gwybodaeth ardderchog o gynnwys maes-llafur yr arholiad, ac maent yn gallu darparu ymatebion manwl i'r cwestiynau heriol a osodir gan yr athrawes.
- 344 Mae myfyrwyr yn dadansoddi'n hyderus wrth adolygu eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau eraill.

Nodweddion da

Cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4

- 345 Mae safonau'n dda ar gyfer perfformwyr unigol a thimau ysgol mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae nifer o fyfyrwyr a thimau yn cyrraedd y safonau uchaf ar lefel sirol a rhyngwladol fel ei gilydd.

Cyfnod allweddol 3

- 346 Mae myfyrwyr yn gweithio â dwyster, diddordeb a mwynhad yn yr holl weithgareddau, yn enwedig yn y sesiynau ffitrwydd cysylltiedig-ag-iechyd.
- 347 Mae myfyrwyr yn perfformio i safon dda mewn gweithgareddau chwaraeon, ac yn enwedig mewn pêl-rwyd a rygbi. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliadau uchel eu hathrawon, ac maent yn arddangos dealltwriaeth dda o'r medrau a'r tactegau i fod yn chwaraewyr llwyddiannus.
- 348 Mewn dawns, mae myfyrwyr yn arddangos galluoedd creadigol da, gan arddangos y gallu i weithio ar y cyd ag amseriad cerddoriaeth a gweithio'n llwyddiannus mewn grwpiau bach a mawr.
- 349 Ar draws y meysydd gweithgarwch, mae rhan fwyaf y myfyrwyr yn gallu cynllunio eu gwaith yn dda, perfformio medrau cymhleth yn hyderus, ac arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eraill yn gywir.
- 350 Mae dealltwriaeth myfyrwyr o ffitrwydd corfforol yn dda. Mae unigolion yn ymglyfrannu'n frwdfrydig mewn ymarferion-ffitrwydd heriol, yn monitro newidiadau ffisiolegol a thrafod effaith gweithgareddau ar eu ffitrwydd personol.
- 351 Ar ddiwedd gwersi, mae myfyrwyr yn arddangos galluoedd da wrth arwain sesiynau claearu a chrynhoi prif agweddau'r gwaith a gwmpaswyd.

Cyfnod allweddol 4

352 Mewn gweithgareddau hunanamddiffyn, mae myfyrwyr yn ymgyfrannu â diddordeb a brwdfrydedd. Arddangosir technegau ar gyfer diogelwch personol i safon dda. Mae cydweithio da gyda swyddogion lleol yr heddlu, sy'n gweithio'n llwyddiannus gyda staff yr ysgol.

353 Mewn pêl-fasged. Mae myfyrwyr yn arddangos safonau da wrth wneud defnydd o dechnegau, gweithredu tactegau a'r gallu i drafod strategaethau ar gyfer gwelliant. Mae myfyrwyr yn defnyddio gofod yn dda, mae ganddynt reolaeth dda o bêl, maent yn pasio a saethu yn gywir, ac maent yn effeithiol wrth amddiffyn ac ymosod.

Diffygion

Cyfnod allweddol 3

354 Nid yw sgiliau echddygol manwl rhai myfyrwyr wedi'u datblygu'n llawn.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae pennaeth dros-dro, staff, disgyblion a rheolwyr Ysgol Dewi Sant yn falch i dderbyn Adroddiad Arolygiad Mawrth 2007 Estyn. Yr ydym wrth ein bodd fod yr arolygwyr wedi dyfarnu gradd 1 i'r ysgol ar gyfer pob un o'r saith cwestiwn allweddol, a bod y tîm arolygu wedi cydnabod fod Ysgol Dewi Sant yn darparu addysg o'r radd flaenaf i'w myfyrwyr gyda 'llawer o gyfleoedd rhagorol i ddysgwyr gyflawni eu llawn botensial'.

Mae'r ysgol hefyd yn falch i weld fod yr arolygwyr wedi cyfeirio at y 'canlyniadau rhagorol a gyflawnwyd gan ei myfyrwyr yn CA3, TGAU a lefel-A' ac wedi cydnabod fod y myfyrwyr yn yr ysgol yn gwneud cynnydd rhagorol rhwng pob cyfnod allweddol.

Mae'r ysgol yn gosod pwysigrwydd sylweddol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ac felly boddhaol o beth oedd gweld fod yr arolygwyr wedi nod fod 'addysgu da iawn ac yn aml rhagorol yn nodwedd amlwg o'r ysgol'. Mae'r staff addysgu uwchben eu digon am fod gradd 1 wedi'i ddyfarnu i bron 90% o'r addysgu yr arsylwyd arno ac y dyfarnwyd gradd un i draean o'r gwersi. Mae hwn yn welliant sylweddol ar y graddau a ddyfarnwyd yn yr adroddiad ar arolygiad blaenorol yr ysgol, ac mae'n sylweddol uwch na chymariaethau cenedlaethol.

Mae'r corff llywodraethol hefyd yn galonogol am fod y tîm arolygu wedi cydnabod fod Ysgol Dewi Sant 'yn meithrin ethos hapus a gofalgar lle y gosodir gwerth ar bob unigolyn' a bod yr arolygwyr yn cyfeirio ar y 'ddarpariaeth ragorol ar gyfer myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol', 'effeithiolrwydd ein tîm rheolaeth' ac 'ansawdd gweithdrefnau hunan-arfarnu'r ysgol'.

Bellach, mae'r ysgol yn edrych ymlaen â hyder cynyddol i barhau â'u strategaethau ar gyfer gwella safonau, ac mae'n aros yn eiddgar am gefnogaeth yr awdurdod unedol i wella adeiladau ac ystafelloedd yr ysgol ymhellach.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Dewi Sant
Math o ysgol	Uwchradd
Ystod oedran y disgyblion	11 - 18
Cyfeiriad yr ysgol	Tyddewi Sir Benfro
Côd post	SA62 6QH
Rhif ffôn	01437 725000

Pennaeth	Mr Walter G Dash
Dyddiad penodi	Ionawr 1996
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Y Cyng. J George
Arolygydd cofrestredig	Mr Brian Medhurst
Dyddiadau'r arolygiad	Mawrth 26 ^{ain} i'r 29 ^{ain} 2007

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Grŵp blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	62	84	66	86	75	39	39	451

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	24	14	30.44

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	14.8 : 1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	20.9
Cyfartaledd maint grŵp addysgu	70.7
Cymhareb cyswllt gyffredinol (canran)	14.8 : 1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad								
	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	Ysgol gyfan
Tymor 1	95.6	94.6	92.9	90.0	89.2	90.5	82.0	90.6
Tymor 2	93.1	91.0	89.2	90.5	88.2	83.3	74.7	87.1
Tymor 3	94.9	92.7	91.4	94.0	94.1	90.1	93.0	92.9

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	13
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	11

Atodiad 3

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 3:

Canlyniadau Aseidiadau CA3 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006															
Cyfanswm nifer y disgyblion yn B9:															
Canran y disgyblion ar bob lefel															
			D	A	F	W	1	2	3	4	5	6	7	8	PE
Saesneg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	4	11	34	40	12	0	0
		Cenedlaethol	0.2	0.7	1.2	0.4	0.3	1.5	7.5	20.9	35.2	23.6	8.30	0.1	0.2
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	1	4	4	9	27	36	19	0	0
		Cenedlaethol	0.2	0.6	1.0	0.4	0.2	0.7	6.2	17.9	24.5	32.5	15.4	0.4	0.2
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	4	5	33	52	7	0	0
		Cenedlaethol	0.2	0.7	1.0	0.3	0.1	0.5	6.2	19.2	33.0	27.1	11.5	0.1	0.2
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	4	11	34	40	12	0	0
		Cenedlaethol	0.2	0.7	1.2	0.4	0.3	1.5	7.5	20.9	35.2	23.6	8.30	0.1	0.2

- D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
- A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
- F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
- W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1
- PE Perfformiad Eithriadol, lle mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn perfformio uwchlaw lefel 8

Canran y disgyblion sy'n cyrraedd o leiaf lefel 5 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg (iaith-gyntaf)			
yn ôl aseiad athro		yn ôl prawf	
Yn yr ysgol	79	Yn yr ysgol	dd/g
Yng Nghymru	58	Yng Nghymru	dd/g

Canlyniadau Arholiadau Cyhoeddus:

Ar gyfer disgyblion 15 oed, canlyniadau mewn TGAU, Cymhwyster Lefel Mynediad, CGCC a CGC	
Nifer y disgyblion 15 oed ar gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr 2006	62
Cyfartaledd sgôr pwyntiau TGAU neu CGCC fesul disgybl	50

Canran y disgyblion 15 oed yn 2006 a:	Ysgol	UA	Cymru
safodd 5 arholiad TGAU neu fwy neu gymhwyster cyfwerth	94	89	88
enillodd o leiaf 5 gradd TGAU A* i C, y cymwysterau galwedigaethol cyfwerth neu gyfuniad o'r ddau	68	58	54
enillodd o leiaf 5 gradd TGAU A* i G, y cymwysterau galwedigaethol cyfwerth neu gyfuniad o'r ddau	90	87	86
enillodd raddau A*-C TGAU mewn mathemateg, gwyddoniaeth, Saesneg neu Gymraeg iaith-gyntaf (ydangosydd pwnc-craidd)	50	40	40
safodd o leiaf un cymhwyster lefel Mynediad, cwrs byr TGAU neu TGAU	98	99	97
enillodd un TGAU gradd A*-C neu fwy neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	89	80	76
enillodd un TGAU gradd A*-G neu fwy neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	97	96	93
na enillodd unrhyw radd TGAU neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	3	4	7
enillodd un cymhwyster lefel Mynediad neu fwy yn unig	0	3	3
enillodd Ran 1 CGCC, CGCC ar lefel Sylfaenol neu CGC lefel 1	94	89	88
enillodd Ran 1 CGCC, CGCC ar lefel Canolradd neu CGC lefel 2	68	58	54

Ar gyfer disgyblion 17 oed, canlyniadau mewn Safon Uwch/UA, CGCC a CGC	
Nifer y disgyblion 17 oed ym mis Ionawr 2006	37
Nifer y disgyblion a safodd 2 arholiad safon uwch TAG neu fwy neu gymwysterau cyfwerth yn 2006	31
Nifer y disgyblion a safodd lai na 2 arholiad safon uwch TAG neu gymwysterau cyfwerth yn 2006	4

Adroddiad gan Brian William Medhurst
Ysgol Dewi Sant, 26/03/07

	Ysgol	UA	Cymru
Canran y disgyblion a safodd a gyflawnodd 2 neu fwy o raddau A-C	84	69	68
Canran y disgyblion a safodd a gyflawnodd 2 neu fwy o raddau A-E	100	94	94
Cyfartaledd sgôr pwyntiau fesul ymgeisydd yn sefyll 2 neu fwy o bynciau	27	20	20

UA Awdurdod Unedol

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd tri-ar-ddeg o arolygwyr (gan gynnwys enwebai'r ysgol) gyfwerth â 42 diwrnod yn yr ysgol.

Arsylwyd ar 88 o wersi, a oedd yn cwmpasu holl feysydd y cwricwlwm.

Mynychodd arolygwyr wasanaethau, sesiynau tiwtorial, sesiynau cofrestru, ac arsylwasant ar ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cynhaliodd arolygwyr lawer o drafodaethau gyda'r pennaeth, aelodau tîm arweinyddiaeth yr ysgol, penaethiaid cyfadranau, staff â chyfrifoldebau ysgol-gyfan, ac aelodau o'r staff cefnogi.

Cyfarfu'r arolygydd cofrestredig a chydweithiwr â'r corff llywodraethol cyn wythnos yr arolygiad, a gwnaethant adrodd y prif ganfyddiadau yn ôl iddynt wedi'r arolygiad.

Archwiliwyd gwaith ar draws y cwricwlwm, gan fyfyrwyr cynrychioladol o bob grŵp-oed. Archwiliwyd gwaith myfyrwyr mewn manau eraill hefyd, ac yn ystod arsylwadau ar wersi.

Cynhaliodd arolygwyr drafodaethau ffurfiol gyda grwpiau dethol o fyfyrwyr o B7 i B13. Gwnaethant hefyd siarad yn anffurfiol â llawer o ddysgwyr.

Cyn yr arolygiad, cyfarfu'r arolygydd cofrestredig â'r staff.

Mynychodd rieni tri-deg-dau o fyfyrwyr y cyfarfod cyn-arolygiad. Derbyniwyd a dadansoddwyd saith-deg o atebion i'r holiadur. Yn ogystal, ysgrifennodd rhai rhieni at yr Arolygydd Cofrestredig.

Archwiliwyd dogfennaeth gynhwysfawr, gan gynnwys adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol cyn, yn ystod, ac wedi'r cyfnod arolygu yn yr ysgol.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Brian W. Medhurst Arolygydd Cofrestredig	Cwestiynau Allweddol 1, 2, 5 a 6
Dr Michael H. L. Snow Arolygydd Lleyg	Cyfraniadau i Gwestiynau Allweddol 1, 3, 4 a 5
Mr Glyn Davies	Cwestiwn Allweddol 3; Cyfraniad i Gwestiwn Allweddol 1; Cydlynu chweched-dosbarth; Gwyddoniaeth
Ms Penny Stead	Cyfraniad i Gwestiwn Allweddol 1; Saesneg
Mr Heddwyn Evans	Cwestiwn Allweddol 4; Cyfraniad i Gwestiwn Allweddol 3
Mr Selwyn Gale	Cyfraniad i Gwestiwn Allweddol 1; Technoleg Gwybodaeth
Mrs Margaret Herbert	Cyfraniad i Gwestiwn Allweddol 1
Mrs Mary Crandon	Cyfraniadau i Gwestiynau Allweddol 1 a 3; Cymraeg
Mr Alan Edwards	Cwestiwn Allweddol 7; Cyfraniadau i Gwestiynau Allweddol 1 a 2
Mrs Anne Newman	Hanes
Dr Stephen Lloyd	Addysg gorfforol
Mr David Jones	Rôl gefnogol; Gwyddoniaeth
Mr Andrew Kennedy	Enwebai'r ysgol

Contractwr: Atlantes Educational Services
Technology House
Lissadel Street
Salford M6 6AP

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, staff a myfyrwyr Ysgol Dewi Sant am eu cwrteisi a'u cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.